

Adolygiad Blynyddol o Gynllun Gwella 13/14

Cynnwys

Crynodeb	3
Trosolwg o Amcanion Gwella 13/14	8
Amcan Gwella 1 – Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.....	11
Amcan Gwella 2 – Teleofal	14
Amcan Gwella 3 – Deall y Gymuned	18
Amcan Gwella 4 – Rhianta Corfforaethol.....	20
Amcan Gwella 5 – Trothwy Lefel 2 Saesneg a Mathemateg	25
Amcan Gwella 6 – Adfywio a Datblygu'r Ddinas.....	28
Amcan Gwella 7 – Rheoli Gwastraff	31
Amcan Gwella 8 – Gwella Cyfleoedd Diwylliannol i Gynyddu Cyfranogiad	33
Amcan Gwella 9 – Rheoli'r Strydlun	38
Amcan Gwella 10 - Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd.....	41
Cydraddoldeb a'r Gymraeg.....	44
Cwynion a Chanmoliaeth Corfforaethol	45
Cydweithredu a Gweithio mewn Partneriaeth.....	46
Dadansoddi Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSC) Cymru a Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MAC)	48
Argymhellion a Chynigion Gwella Swyddfa Archwilio Cymru	53

Crynodeb

Mae'r adroddiad canlynol yn amlinellu'r cynnydd a wnaeth y cyngor wrth gyflawni nodau Cynllun Gwella 2013/14.

Roedd Cynllun Gwella 2013/14 yn seiliedig ar y themâu allweddol sy'n ffurfio Cynllun Corfforaethol 2012/17. Cafwyd newid eleni yn sgîl y ffaith fod deg Amcan Gwella wedi'u rhannu rhwng y themâu. Crynhoir eu perfformiad isod.

Bu Cynllun 2013/14 yn llwyddiannus ac mae wedi cyflawni sgôr cyffredinol da - melyn. Er gwaethaf yr ymdrech gynyddol i sicrhau arbedion a hinsawdd economaidd fewnol ddigynsail, dengys y Cynllun berfformiad cadarn. Ymhlith y meysydd perfformiad da allweddol mae deall y gymuned, rheoli gwastraff a rheoli'r Strydlun. Cafodd pob un o'r meysydd hyn sgôr perfformio rhagorol – gwyrdd. Cydnabyddir bod perfformiad da nodedig arall i'w gael ym meysydd grantiau cyfleusterau i'r anabl, rhianta corfforaethol, trothwy lefel 2 mewn Saesneg a Mathemateg, adfywio a datblygu'r ddinas, gwella cyfleoedd diwylliannol i gynyddu cyfranogiad a Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd. Roedd y perfformiad ym maes Teleofal yn llai llwyddiannus.

Nodir cynnydd yn erbyn themâu allweddol yn y Cynllun ar gyfer 13/14 isod:

Mae Casnewydd yn Ddinas Ofalgar

Amcanion Gwella:

1: Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl - Da **MELYN**

Amcan: Cynnig rhaglen well o ran Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl gyda'r nod o leihau'r amser cyflenwi cyfartalog o ddyddiad y cyswllt cyntaf.

Craffwyd ar yr amser a gymerwyd i gaffael mân addasiadau i fesur yr union amser a gymerodd i'r broses hon gael ei chwblhau ac mae bellach yn cael ei ddefnyddio i ystyried pa un a fyddai newid graddol yn y broses gaffael yn sicrhau gwelliannau sylweddol yn amseroedd cyflawni'r GCA.

Pennir melyn i'r amcan hwn; rydym wedi dod i'r casgliad hwn am fod dau o'r tri mesur wedi rhagori ar eu targed; pennwyd melyn i'r mesur olaf - canran yr asesiadau therapyddion galwedigaethol a gyflawnwyd o fewn 14 wythnos - am iddo fethu â bwrw'r targed o drwch blewyn.

2. Teleofal – Derbyniol - **OREN**

Amcan: Bydd y Gwasanaeth Teleofal, ar y cyd â gwasanaethau gofal a chymorth eraill, yn galluogi pobl eiddil, pobl anabl a phobl sy'n agored i niwed i fyw mor annibynnol â phosibl tra'n lleihau risgiau.

Pennir oren – derbyniol – i'r amcan hwn; rydym wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd o'r saith mesur rhagorodd bedwar ar eu targedau, gyda'r tri arall yn eu methu.

Rydym yn dal i wneud cynnydd wrth ddatblygu Teleofal fel opsiwn addas i nifer o bobl yn ein cymuned sy'n fregus sy'n agored i niwed, a bod angen cymorth arnynt gan wasanaethau cymdeithasol i oedolion. Bu'r perfformiad yn foddhaol, a byddwn yn parhau i ganolbwyntio ein hymdrechion i wella'r sefyllfa hon yn 2014/15.

Mae Casnewydd yn Ddinas Decach

Amcanion Gwella:

3. Deall y Gymuned - Rhagorol **GWYRDD**

Amcan: Gellir diffinio deall cwsmeriaid fel dealltwriaeth drylwyr o anghenion, ymddygiad a chymhelliant cwsmeriaid. Bydd datblygu'r ddealltwriaeth hon yn ein galluogi i gynllunio gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion cwsmeriaid, a darparu'r gwasanaethau hynny mewn ffordd sydd wedi'i dargedu'n well.

Pennir gwyrdd – rhagorol – i'r amcan hwn; rydym wedi dod i'r casgliad hwn am fod tri o'r pedwar mesur wedi rhagori ar eu targed, gyda'r mesur 'nifer yr etholwyr cofrestredig' yn methu'r targed o 0.16%.

4. Y Strategaeth Rhianta Corfforaethol - Da **MELYN**

Amcan: Mae'r Strategaeth Rhianta Corfforaethol yn ddull gweithredu mwy cyfannol ac integredig o sicrhau gwell canlyniadau i Blant sy'n Derbyn Gofal.

Pennir melyn – da – i'r amcan hwn; rydym wedi dod i'r casgliad hwn am i 13 o'r 10 mesur ragori ar eu targed, methodd un y targed o drwch blewyn a methodd dau y targed yn sylweddol. Y rhai a fethodd y targed yn sylweddol yw: Cyfranogiad hamdden ymhlith plant sy'n derbyn gofal a sefydlogrwydd lleoliadau plant sy'n derbyn gofal. Mae pob un o'r meysydd hyn yn gwella.

Mae Casnewydd yn Ddinas sy'n Dysgu a Gweithio

Amcanion Gwella:

5. Trothwy lefel 2 Saesneg/Mathemateg - Da **MELYN**

Amcan: Mae cyflawni ystod dda o gymwysterau yng Nghyfnod Allweddol 4 yn hanfodol i bobl ifanc wneud cynnydd tuag at ddysgu, hyfforddiant a chyfleoedd cyflogaeth pellach yn y dyfodol er mwyn cyflawni eu potensial.

Pennir melyn – da – i'r amcan hwn; rydym wedi dod i'r casgliad hwn am fod y ddau fesur – pobl ifanc yn cyflawni trothwy L2 a chyfradd uwch o bobl ifanc sy'n cael prydau ysgol am ddim yn cyflawni trothwy lefel 2 wedi methu eu targedau o drwch blewyn, ac fe'u hystyriwyd yn dda.

Mae ysgolion wedi defnyddio profion Lythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn dda i benderfynu yn lle y dylid targedu gwelliant i wella cyrhaeddiad disgyblion. Mae cynllun clir i ddatblygu'r fframwaith llythrennedd a rhifedd yn yr holl ysgolion.

6. Adfywio a Datblygu'r Ddinas - Da **MELYN**

Amcan: Adfywio Canol y Ddinas gan wneud Casnewydd yn lle deniadol i fuddsoddi ynddo. Y nod yw gwella pa mor ddeniadol yw'r ddinas yn gyffredinol a gwella golwg tir y cyhoedd er mwyn cynyddu nifer yr ymwelwyr â'r ddinas. Byddwn yn gwella sylfaen sgiliau'r ddinas, gan gynyddu'r potensial ar gyfer cyflogaeth leol a thwf yr economi leol.

Pennir melyn – da – i'r amcan hwn; rydym wedi dod i'r casgliad hwn am fod dau o'r pedwar mesur wedi rhagori ar eu targed a dau wedi ei fethu, sef: nifer y benthyciadau cymorth busnes a ddyrannwyd a swm y benthyciadau cymorth busnes a ddyfarnwyd. Roedd hyn yn bennaf am nad oedd rhai projectau busnes wedi mynd rhagddynt, ac am y daethai rhai ceisiadau i law yn hwyrach na'r disgwyl.

Mae Casnewydd yn Ddinas Wyrddach ac Iachach

Amcanion Gwella:

7. Rheoli Gwastraff – Rhagorol **GWYRDD**

Amcan: Mae'r Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru wedi pennu targedau heriol iawn o ran dargyfeirio gwastraff ac ailgylchu. Gellir gosod dirwyon sylweddol am fethu â chyflawni'r targedau hyn. Yn hanesyddol ystyriwyd bod Casnewydd yn awdurdod blaengar ac arloesol o ran y ffordd y mae'n ailgylchu, a chostau isel y gwasanaethau a ddarperir.

Pennir gwyrdd – rhagorol – i'r amcan hwn; rydym wedi dod i'r casgliad hwn am fod tri o'r pedwar mesur wedi rhagori ar eu targed. Methodd y mesur olaf – gwastraff a ailgylchwyd neu a gompostwyd – ei darged o drwch blewyn (0.31%) ac fe'i hystyriwyd yn dda ar y cyfan er iddo fethu'r targed, gan wella o'r llynedd.

8. Gwella cyfleoedd diwylliannol i gynyddu cyfranogiad - Da **MELYN**

Amcan: Mae chwaraeon a chyfleoedd diwylliannol eraill yn gwella bywydau pobl ac yn gwneud y ddinas yn lle gwell i fyw ynddo ac i ymweld ag ef. Ein nod yw gwella arlwy diwylliannol y ddinas a chynyddu lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon a chyfleoedd hamdden.

Pennir melyn – da – i'r amcan hwn; rydym wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd o'r 11 mesur sy'n cynnwys yr amcan hwn, rhagorodd chwech ar y targed a methodd pump eu targed o drwch blewyn. Er methu'r targedau hyn o drwch blewyn, dangosodd ddau welliant o'r llynedd.

Cwblhawyd pob cam gweithredu'n llwyddiannus ar ddiwedd y flwyddyn. Methodd dau fesur â bwrw'r targed, ac er i rai elfennau o'r mesur cyfranogi fethu â bwrw targedau, mae cyfranogiad cyffredinol yn uwch na'r disgwyl.

Mae Casnewydd yn Ddinas Ddiogel

Amcanion Gwella:

9. Rheoli Strydlun – Rhagorol **GWYRDD**

Amcan: Bydd trefniadau Rheoli Strydlun effeithiol yn helpu i wneud strydoedd y ddinas yn lanach ac yn ddiogelach.

Mae amgylchedd glân, diogel, iach a gwyrdd yn hyrwyddo:

- Balchder cymunedol a rhoi gwerth ar yr amgylchedd
- Gwella bywydau pobl
- Lleihau'r pwysau ar adnoddau a chyllidebau gweithredol sydd dan bwysau
- Amgylchedd diogel, glân a deniadol i fyw a gweithio ynddo, ymweld ag ef a gwneud busnes yno

Pennir gwyrdd – rhagorol – i'r amcan hwn; rydym wedi dod i'r casgliad hwn am fod yr holl fesurau wedi rhagori ar eu targed.

10. Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd - Da **MELYN**

Amcan: Bydd datblygu gwasanaethau ymyrraeth gynnar a gwasanaethau ataliol ymhellach yn cynyddu gallu a hyder y teulu tra'n lleihau'r ddibyniaeth ar wasanaethau aciwt a lleihau'r pwysau ar y gwasanaethau hynny.

Pennwyd melyn – da – i'r amcan hwn; rydym wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd o'r chwe mesur, mae pump yn rhagori ar eu targed ac mae un wedi methu'r targed o drwch blewyn.

Cefnogwyd mwy o blant a theuluoedd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf na'r llynedd – roedd ffactorau a aseswyd is ymhlith y mwyafrif helaeth, gan felly ddynodi i'r rhan fwyaf gael eu cynorthwyo ac nad oedd rhaid atgyfeirio at systemau amddiffyn plant a/neu blant sy'n derbyn gofal.

Crynodeb o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSC) a Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MAC)

Mae'r pwyntiau isod yn amlygu perfformiad y Cyngor yn 2013/14 o ran DSCau a MACau yn gyffredinol:

- Perfformiodd 64% o DSCau a MACau yn well na'r llynedd.
- Rhagorodd 68% o DSCau a MACau ar eu targed
- Rhagorodd 43% o DSCau a MACau ar gyfartaledd Cymru

Diwygiadau

Dylid nodi y gwnaed newidiadau i rai mesurau a thargedau yn ystod 2013/14. Mae'r rhain wedi'u nodi a gallwch eu darllen yn yr adroddiad canlynol:

<http://www.newport.gov.uk/stellent/groups/public/documents/report/cont718090.pdf>

Cynigion SAC ar gyfer gwella

Yn ystod 13/14 cafodd y cyngor Aseiad Corfforaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru sydd â chwe argymhelliad i weithredu arnynt. Gwnaed cynnydd at gyflawni cynigion Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer Gwella ac argymhellion yn ystod 13/14.

Trosolwg o Amcanion Gwella 13/14

Cynllun Gwella 13/14

Mae Cynllun Gwella 2013/14 yn nodi deg Amcan Gwella sy'n cyfrannu at bob un o bum thema'r Cynllun Corfforaethol.

Dinas Ofalgar

1: Grant Cyfleusterau i'r Anabl

Cynnig rhaglen well o ran Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl gyda'r nod o leihau'r amser cyflenwi cyfartalog o ddyddiad y cyswllt cyntaf.

2. Teleofal

Bydd y Gwasanaeth Teleofal, ar y cyd â gwasanaethau gofal a chymorth eraill, yn galluogi pobl eiddil, pobl anabl a phobl sy'n agored i niwed i fyw mor annibynnol â phosibl tra'n lleihau risgiau.

Dinas Decach

3. Deall y Gymuned

Gellir diffinio deall cwsmeriaid fel dealltwriaeth drylwyr o anghenion, ymddygiad a chymhelliant cwsmeriaid. Bydd datblygu'r ddealltwriaeth hon yn ein galluogi i gynllunio gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion cwsmeriaid, a darparu'r gwasanaethau hynny mewn ffordd sydd wedi'i dargedu'n well.

4. Y Strategaeth Rhianta Corfforaethol

Mae'r Strategaeth Rhianta Corfforaethol yn ddull gweithredu mwy cyfannol ac integredig o sicrhau gwell canlyniadau i Blant sy'n Derbyn Gofal.

Dinas sy'n Dysgu ac yn Gweithio

5. Trothwy lefel 2 Saesneg/Mathemateg

Mae cyflawni ystod dda o gymwysterau yng Nghyfnod Allweddol 4 yn hanfodol i bobl ifanc wneud cynnydd tuag at ddysgu, hyfforddiant a chyfluoedd cyflogaeth pellach yn y dyfodol er mwyn cyflawni eu potensial.

6. Adfywio a datblygu'r ddinas

Adfywio Canol y Ddinas gan wneud Casnewydd yn lle deniadol i fuddsoddi ynddo. Y nod yw gwella pa mor deniadol yw'r ddinas yn gyffredinol a gwella golwg tir y cyhoedd er mwyn cynyddu nifer yr ymwelwyr â'r ddinas. Byddwn yn gwella sylfaen sgiliau'r ddinas, gan gynyddu'r potensial ar gyfer cyflogaeth leol a thwf yr economi leol.

Dinas Wyrddach ac Iachach

7. Rheoli Gwastraff

Mae'r Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru wedi pennu targedau heriol iawn o ran dargyfeirio gwastraff ac ailgylchu. Gellir gosod dirwyon sylweddol am fetu â chyflawni'r targedau hyn. Yn hanesyddol ystyriwyd bod Casnewydd yn awdurdod blaengar ac arloesol o ran y ffordd y mae'n ailgylchu, a chostau isel y gwasanaethau a ddarperir.

8. Gwella chyfluoedd diwylliannol i gynyddu cyfranogiad

Mae chwaraeon a chyfluoedd diwylliannol eraill yn gwella bywydau pobl ac yn gwneud y ddinas yn lle gwell i fyw ynddo ac i ymweld ag ef. Ein nod yw gwella arlwy diwylliannol y ddinas a chynyddu lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon a chyfluoedd hamdden.

Dinas Ddiogelach

9. Rheoli'r Strydlun

Bydd trefniadau Rheoli Strydlun effeithiol yn helpu i wneud strydoedd y ddinas yn lanach ac yn ddiogelach.

10. Gwasanaethau Cymorth Integredig i Deuluoedd

Bydd datblygu gwasanaethau ymyrraeth gynnar a gwasanaethau ataliol ymhellach yn cynyddu gallu a hyder y teulu tra'n lleihau'r ddibyniaeth ar wasanaethau aciwt a lleihau'r pwysau ar y gwasanaethau hynny.

Diwygiadau

Dylid nodi y gwnaed newidiadau i rai mesurau a thargedau yn ystod 2013/14. Mae'r rhain wedi'u nodi a gallwch eu darllen yn yr adroddiad canlynol:

<http://www.newport.gov.uk/stellent/groups/public/documents/report/cont718090.pdf>

Dolenni a rhagor o wybodaeth

[Cynllun Gwella 13/14](#)

[Crynodeb o Gynllun Gweithredu 13/14](#)

[Cynllun Corfforaethol 2012-2017](#)

[Gwefannau Rheoli Perfformiad](#)

Dweud eich dweud

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn ymrwymedig i wella ein gwasanaethau ac mae'n bwysig ein bod ni'n gwrando ar farn y gymuned. Rydym yn croesawu eich sylwadau neu'ch awgrymiadau unrhyw adeg o'r flwyddyn.

Os oes unrhyw sylwadau gennych, os hoffech ragor o wybodaeth, neu i ofyn am gopi o'r adolygiad hwn o'r Cynllun Gwella cysylltwch â:

Y Tîm Perfformiad Corfforaethol

Cyngor Dinas Casnewydd

Y Ganolfan Ddinesig

Casnewydd

NP20 4UR

E-bost: performance.management@newport.gov.uk

Ffôn: 01633 656656

Amcanion Gwella manwl

Mae'r adran hon yn sôn am yr Amcanion Gwella yn fanylach. Gwnaed yr asesiad cyffredinol o bob amcan yn seiliedig ar y canlynol:

Gwneir gwerthusiad cyffredinol o gynnydd drwy ddefnyddio'r meini prawf canlynol.

am Statws	Gwerthuswyd fel	Esboniad
Gwyrdd	Rhagorol	Pob cam gweithredu a mesur yn cael eu cyflawni
Melyn	Da	Camau gweithredu a mesurau'n cael eu cyflawni gan mwyaf, un neu ddau'n methu targedau a gynlluniwyd o fymryn
Oren	Derbyniol	Rhoi camau gweithredu a mesurau wedi newid o'r cynllun a rhai'n methu targedau a gynlluniwyd
Coch	Angen gwella	Camau gweithredu a mesurau'n peri pryder ac yn methu targedau a gynlluniwyd gan mwyaf

Allwedd Camau Gweithredu

Gwyrdd – camau gweithredu wedi'u cyflawni yn erbyn y cynllun a chyflawnwyd canlyniadau disgwyliedig i ddinasyddion

Melyn – camau gweithredu drwch blewyn o'r hyn a gynlluniwyd a/neu rai o'r canlyniadau disgwyliedig i ddinasyddion wedi'u cyflawni

Coch – camau gweithredu heb eu cyflawni fel y cynlluniwyd ac ni chyflawnwyd canlyniadau i ddinasyddion

Allwedd Mesurau

(G) = Gwyrdd, perfformiad yn well na'r llynedd / targed

(M) = Melyn, perfformiad wedi dirywio fymryn ers y llynedd / yn erbyn y targed

(C) = Coch, perfformiad yn waeth na'r llynedd / targed

Amcan Gwella 1 – Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl

Aelod Cabinet Arweiniol: Yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol a Lles

Swyddog Arweiniol: Cyfarwyddwr Strategol - Lleoedd

Asesiad Cyffredinol: Ambr – Da. Dim ond un mesur sydd heb â bwrw'r targed.

Camau Allweddol

1.2 Cyflwyno dulliau caffael modern i ddatblygu cytundebau fframwaith a chontractau â phartneriaid ar gyfer gwasanaethau Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. GWYRDD

Yr hyn a gyflawnwyd eleni

Craffwyd ar yr amser a gymerwyd i gaffael mân addasiadau i fesur yr union amser a gymerodd i'r broses hon gael ei chwblhau ac mae bellach yn cael ei ddefnyddio i ystyried pa un a fyddai newid graddol yn y broses gaffael yn sicrhau gwelliannau sylweddol yn amseroedd cyflawni'r GCA. Gosodiadau liffitiau grisiau rhad a nodwyd fel y math pwysicaf o addasiad a all gael y budd mwyaf o newid i gaffael.

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud? (canlyniadau gwell)

Amseroedd gosod gwell ac ansawdd bywyd gwell i breswylwyr wrth i addasiadau gael eu delio â nhw mewn ffordd amserol.

1.3 Gweithio gyda gwasanaethau eirioli annibynnol i hybu ac annog pobl i ddefnyddio gwasanaethau byw'n annibynnol, yn cynnwys Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, a gwella ansawdd ac amrywiaeth y wybodaeth a roddir i ymgeiswyr drwy gynhyrchu gwybodaeth am wasanaethau mewn fformatau amrywiol yn cynnwys Braille, sain, ffont bras, y Gymraeg ac ieithoedd eraill GWYRDD

Yr hyn a gyflawnwyd eleni

Diweddarwyd gwefan y Cyngor i adlewyrchu'r broses gyfredol a'r amseroedd aros ynghyd â phwyntiau cyswllt. Bydd erthygl ar Ddiogelwch yn y Cartref yn rhifyn mis Mawrth Newport Matters. Datblygwyd llyfryn newydd. Bydd hyn yn sicrhau y bydd cyfle i fesur pa effaith a gaiff y lefel uwch o gyhoeddusrwydd drwy nifer y ceisiadau a fydd am addasiadau a GCAu wedi hynny.

Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo â Gofal a Thrwsio i roi colofn bosibl i bobl hŷn yn y wasg leol, lle gellir hysbysebu'r broses addasiadau.

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud? (canlyniadau gwell)

Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i nifer o bobl sydd angen addasiadau i wella ansawdd eu bywyd bob dydd ac a allai o bosibl gael grant i fanteisio ar y gwasanaeth

1.4 Rhoi system cyflwyno adroddiadau ar waith sy'n fwy effeithiol o ran dangos lefel y gwelliant yn y gwasanaeth ac sy'n dangos y perfformiad sylfaenol yn hytrach na chyfartaledd syml. GWYRDD

Yr hyn a gyflawnwyd eleni

Mae'r Cyngor wedi ceisio ynysu mathau gwahanol o addasiadau a phrosesau asesu a phennu targedau penodol i'r rhain. Ar hyn o bryd pennwyd targed o 28 wythnos ar gyfer asesiadau therapyddion galwedigaethol a darparu GCAu. Mesurir amseroedd darparu ac

adroddir bob mis ar grantiau a gwblheir hyd at y dyddiad hwnnw, a chânt eu dyrannu'n 4 bloc amser cyflawni. 2013/2014 fydd yr ail flwyddyn o'r rhaglen dwy flynedd i glirio'r ôl-groniad blynyddol.

I bob pwrpas mae hyn yn golygu, y dylai'r mwyafrif o achosion gael eu rheoli o fewn 28 wythnos, ac mae rhwng dau fand amser 3-6 mis neu 6-9 mis. Ar ddiwedd mis Mawrth 2014 cafodd GCA ei gyflawni ymhen 316 diwrnod ar gyfartaledd. Cwblhawyd 74% mewn llai na 365 diwrnod.

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud? (canlyniadau gwell)

Bydd y system adrodd newydd hon yn cyfrif am yr amrywiad yn y gwahanol fathau o addasiad, a gellir ei ddefnyddio i sicrhau'r Cyngor a thrigolion y caiff GCAu fel rheol eu prosesu'n gyflym gan sicrhau'r budd mwyaf posibl o addasiadau a wneir i gartrefi.

1.5 Nodi sut mae'r addasiadau a wnaed wedi gwella ansawdd bywyd yr unigolyn a'r effaith ar wasanaethau posibl eraill y byddai wedi bod eu hangen oni ddarparwyd yr addasiad mewn modd amserol **GWYRDD**

Yr hyn a gyflawnwyd eleni

Bu'r Rheolwr Atgyweiriadau Tai a'r Rheolwr Adnewyddu'n gweithio gyda 4 Cyngor arall Gwent i ddatblygu system fonitro unedig a fydd yn casglu'r data ansoddol sydd ei angen i adolygu'r gwelliannau proses a'r buddion i fywyd y cleient. Disgwylwyd i'r system newydd fod ar waith erbyn diwedd mis Medi, a bod yn berthnasol i'r holl GCAu a gyflawnwyd ers 1 Ebrill 2013. Fodd bynnag, trefniant gweithio ar y cyd oedd hwn ag Awdurdodau eraill, a bu oedi. Mae Grŵp Adnewyddu ac Addasu Tai De Cymru bellach yn gweithio gydag Uned Data Cymru i greu arolwg boddhad cwsmeriaid y gall holl Awdurdodau Cymru ei ddefnyddio. Mae'r gwaith yn dal i fynd rhagddo ac mae Casnewydd wedi atgyfodi ei harolwg boddhad ei hun.

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud? (canlyniadau gwell)

Yn galluogi'r Cyngor i fonitro canlyniadau i'r cleient a hefyd wella gwasanaethau i gleientiaid yn y dyfodol

Mesurau Perfformiad Allweddol

Mesur	Gwirion eddol 13/14	Targed 13/14	Blwyddyn flaenorol 12/13	Sylwadau
1A Yr amser a gymerwyd i gyflenwi grantiau cyfleusterau i'r anabl	319 diwrnod	375 diwrnod (G)	539 diwrnod (G)	Mae hyn yn dangos effaith rhaglen barhaus o welliannau system, adnoddau cyfalaf ychwanegol a datrys materion staffio. Cyfanswm diwrnodau 65,042 cyfanswm addasiadau 204.
1B Canran yr asesiadau gan Therapyddion Galwedigaethol a gyflawnwyd o fewn 14 wythnos	87.6%	90% (M)	Dd/B	Cyflawnwyd yn erbyn y targed tan y chwarter olaf, lleihad yn nifer y staff wedi effeithio ar ddyrannu achosion i'w hasesu o fewn yr amserlen. Sefyllfa a adroddwyd yn gynnar yn 2014/15 – targed yn cael

				ei gyflawni. 121 o asemiadau, 106 mewn 14 wythnos.
1C Nifer yr achosion sy'n cymryd dros flwyddyn i'w cwblhau	55 achos	62 achos (G)	Dd/B	Mae hyn yn dangos effaith rhaglen barhaus o welliannau system, adnoddau cyfalaf ychwanegol a datrys materion staffio.

Amcan Gwella 2 – Teleofal

Aelod Cabinet Arweiniol: Yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol a Lles

Swyddog Arweiniol: Pennaeth y Gwasanaethau Integredig (Gofal Cymdeithasol ac Iechyd)

Asesiad Cyffredinol: Oren – Derbyniol, rhai camau gweithredu wedi methu â chyflawni gweithgareddau a gynlluniwyd o fymryn, a methodd tri mesur dargedau.

Rydym yn dal i wneud cynnydd wrth ddatblygu Teleofal fel opsiwn addas i nifer o bobl yn ein cymuned sy'n fregus neu sy'n agored i niwed, a bod angen cymorth arnynt gan wasanaethau cymdeithasol i oedolion. Bu'r perfformiad yn foddhaol a byddwn yn dal i ganolbwyntio ein hymdrechion i wella'r sefyllfa hon yn 2014/15. Mae defnyddio Teleofal yn gofyn am newid i'r ffordd a feddylw'n am ofal a chymorth sy'n cael ei roi yn y gymuned-

- Bydd angen i unigolion sy'n manteisio ar wasanaethau gadarnhau'r manteision y gallant eu cynnig wrth gynnal eu hannibyniaeth, bydd hyn yn datblygu wrth i fwy o bobl gael y math hwn o gymorth ac wrth i dechnoleg barhau i gynnig ffyrdd gwell o gefnogi trefniadau gofal
- Mae staff sy'n asesu pobl sy'n cael gofal a chymorth yn y gymuned hefyd angen meddwl mewn ffordd llai traddodiadol a gweithio'n wahanol gyda phobl i ystyried ffyrdd newydd o weithio.
- Mae angen i ofalwyr, aelodau eraill o'r teulu neu gynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau hefyd fod yn llawer mwy ymwybodol o fanteision dulliau o'r fath, gan werthfawrogi nad yw hyn yn rhoi pobl mewn perygl eithr yn gwella cymorth ym mhob rhan o'r gymuned.

Camau Allweddol

[2.1 Caiff gwasanaethau teleofal eu hystyried ym mhob asesiad o angen a gynhelir gan aseswyr gofal cymdeithasol. MELYN](#)

Yr hyn a gyflawnwyd eleni

Trosglwyddo Darparwr Gwasanaeth yn llwyddiannus heb golli'r gwasanaeth. Gweithio tuag at gynnwys 'ysgogiad' Teleofal o fewn adnoddau asesu. Mae nifer gynyddol o aseswyr yn atgyfeirio at y gwasanaeth. Rydym wedi gweld cynnydd mawr yn nifer yr atgyfeiriadau dros y tri mis diwethaf o 217 ar ddiwedd 13 Rhag i 282 erbyn diwedd Mawrth 2014, yn bennaf oherwydd hyfforddiant parhaus i aseswyr. Ymwybyddiaeth well drwy wneud Teleofal yn rhan o'n hagenda corfforaethol. Blaenoriaethir yn natblygiad a chynlluniau gweddnewid gwasanaethau.

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud? (canlyniadau gwell)

Llai o oedi wrth drosglwyddo gofal. Diogelwch gwell i ddinasyddion. Galluogi pobl i aros gartref am hirach. Mae'r Gwasanaeth newydd yn un Dinas Gyfan; i bawb sy'n defnyddio'r gwasanaeth gan gynnig dewis gwell. Gall dinasyddion fanteisio ar Wasanaeth Teleofal fel rhan o'u cynllun gofal neu fel mesur ataliol.

[2.2 Caiff gwasanaethau teleofal eu hychwanegu at fwy o becynnau gofal sy'n bodoli eisoes wrth iddynt gael eu hadolygu. MELYN](#)

Yr hyn a gyflawnwyd eleni

Mae teleofal wedi caniatáu am newidiadau mewn Pecynnau Gofal sydd eisoes yn bodoli drwy gyfrif am

- Ddewis personol
- Mwy o annibyniaeth
- Diogelwch gwell
- Gostyngiad yn y ddarpariaeth bresennol

Cyfle i brofi'r offer e.e. dyrannwr tabledi ochr yn ochr ag 'ysgogiad' gofal cartref.

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i ddinasyddion? (canlyniadau gwell)

Adolygiadau Pecyn yn caniatáu am:

Darparu offer ataliol i bobl a allai fod â hanes o ddisgyn, er enghraifft.

Mae teleofal wedi helpu dinasyddion i feddwl am ffyrdd gwahanol o'u cynorthwyo nhw a'u gofalwyr.

2.3 Daw teleofal yn rhan graidd o bob Ymyriad Eiddilwch am gyfnod chwe wythnos yr ymyriad eiddilwch. **GWYRDD**

Yr hyn a gyflawnwyd eleni

Bu cynnydd sylweddol yn y defnydd o Deleofal mewn Pecynnau Eiddilwch, wedi'i ysgogi gan broses newydd gan gynnwys cyflwyno pecyn Atgyfeirio Eiddilwch a ffurflen atgyfeirio bwrpasol i hwyluso hyn.

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i ddinasyddion? (canlyniadau gwell)

Gall pob dinesydd sy'n destun ymyriad eiddilwch fanteisio ar Deleofal am 6 wythnos ac ar ôl hynny bydd Swyddog Teleofal yn cysylltu â nhw i gael gwybod a oes angen i'r ddarpariaeth barhau fel rhan o'u pecyn gofal, a oes angen mwy o offer Teleofal neu eu hatgyfeirio at dîm arall. Mae hyn yn rhoi tawelwch meddwl o wybod y caiff eu pecyn Teleofal eu hadolygu.

2.4 Hyfforddi mwy o staff asesu o ran ymwybyddiaeth o deleofal er mwyn hyrwyddo'r gwasanaeth a'i gynnwys fel rhan o becynnau gofal yn fwy effeithiol. **MELYN**

Yr hyn a gyflawnwyd eleni

Cysylltwyd â 95% o aseswyr yn 2013-14 a byddwn nawr yn annog yr holl aseswyr ac unrhyw rai newydd i barhau i fanteisio ar y diwrnodau hyfforddiant gloywi. Bwriedir cynnal diwrnod agored ym mis Mai 2014 a chaiff yr holl aseswyr eu gwadd hefyd. Bydd diweddariadau cyfarfodydd tîm yn dal i gael eu cynnal lle y bo'n bosibl. Bu'r grŵp Hyrwyddiadau TeleOfal wrthi'n cyfrannu eu profiadau gan eu timau unigol gan gynorthwyo yn y diwrnod gwybodaeth.

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i ddinasyddion? (canlyniadau gwell)

Canlyniadau i Ddinasyddion eu bod yn cael eu hasesu gan bobl sydd â gwybodaeth gyfoes am yr offer a sut y gallai gefnogi neu wella eu sefyllfa.

Bydd gan fwy o ddinasyddion gyfle i gael offer Teleofal wedi'i osod i ategu eu hannibyniaeth.

Mesurau Perfformiad Allweddol

Mesur	Gwirioneddol 13/14	Targed 13/14	Blwyddyn flaenorol (2012/13)	Sylwadau
2A Cyfanswm nifer defnyddwyr y gwasanaeth teleofal	281	300 (M)	Dd/B	Roedd nifer yr achosion newydd o deleofal ychydig yn is na'r targed ddiwedd y flwyddyn. Rydym yn dal i gael effaith ddiwylliannol i

				<p>dderbyn y ddarpariaeth fel dewis amgen dichonadwy i bobl ymhlith ein haseswyr gwaith cymdeithasol ac ymhlith y rhai a allai o bosibl gael y math hwn o wasanaethau.</p> <p>Yr her yw cynnal teleofal fel opsiwn dichonadwy ar gyfer yr holl gleientiaid gofal cymdeithasol sy'n oedolion.</p>
2B Y lleihad canrannol mewn costau lleoliadau preswyl (mesur osgoi costau)	58%	58% (G)	Dd/B	<p>Cyflawnwyd y targed sy'n golygu yr osgowyd talu costau a fyddai wedi'u talu fel arall mewn achosion tebyg o ran gofal preswyl. Yn fwy pwysig, darparu gwasanaethau yn nhai pobl sy'n cynnal eu hannibyniaeth.</p>
2C Y lleihad canrannol mewn costau pecynnau gofal cartref (osgoi costau ac adolygu pecynnau gofal cyfredol)	42%	42% (G)	Dd/B	<p>Cyflawnwyd y targed sy'n golygu yr osgowyd talu costau a fyddai wedi'u talu fel arall mewn achosion tebyg o ran gofal cartref. Yn fwy pwysig, darparu gwasanaethau yn nhai pobl sy'n cynnal eu hannibyniaeth.</p>
2D Canran y defnyddwyr gwasanaeth a oedd o'r farn bod y gwasanaeth yn diwallu eu hanghenion	90%	95% (M)	Dd/B	<p>Gwnaethom gyflawni lefel uchel o foddhad, 90%, ond roedd hyn yn is na'r disgwyl. Byddwn yn gofyn i bobl a deimlai nas diwallwyd eu hanghenion beth oedd y rhesymau dros hynny.</p>
2E Canran y defnyddwyr gwasanaeth a oedd yn fodlon ar y gwasanaeth a'r cyfarpar	90%	80% (G)	Dd/B	<p>Canlyniad cadarnhaol â lefel uchel o foddhad</p>
2F Canran y defnyddwyr gwasanaeth a fyddai'n argymhell y gwasanaeth	90%	65% (G)	Dd/B	<p>Argymhelliad llawer uwch na'r hyn yr oeddem yn ei ddisgwyl sydd hefyd yn gadarnhaol</p>
2G Canran y staff asesu sydd wedi'u hyfforddi o ran ymwybyddiaeth o Deleofal a chynnal asesiadau	91.5%	95% (M)	Dd/B	<p>Ychydig yn is na'r targed o ran hyfforddiant ymwybyddiaeth o deleofal. Byddwn yn sicrhau bod ymwybyddiaeth yn dal i godi, gan fod hyn yn hanfodol i newid y meddylfryd ar ddulliau o'r fath yn y gymuned</p>

Amcan Gwella 3 – Deall y Gymuned

Aelod Cabinet Arweiniol: Dirprwy Arweinydd

Swyddog Arweiniol: Pennaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid a Gwybodaeth

Asesiad Cyffredinol: Gwyrdd—Rhagorol. Pob cam gweithredu ar amser ac wedi'i asesu'n wyrdd oherwydd y cynnydd ar gamau gwella a Dangosyddion Perfformiad, er na fwriwyd y targed DP o ran ymgysylltu ag etholwyr o 0.16%.

Camau Allweddol

3.1 Llunio Proffiliau Ward a Phroffiliau Ward Cryno er mwyn galluogi Gwasanaethau a Dinasyddion i gael data cywir y cytunwyd arno a dealltwriaeth o gwsmeriaid ym mhob ward er mwyn gallu llywio penderfyniadau. **GWYRDD**

Yr hyn a gyflawnwyd eleni

Datblygwyd proffiliau wardiau i gefnogi nodau Bwrdd Gwasanaethau Lleol Un Casnewydd a datblygu pedair Partneriaeth Ardal sy'n cynnwys y 20 o ardaloedd ward dynodedig ledled y ddinas. Mae'r proffiliau'n cynnig trosolwg o'r ward ac yn cynnig gwybodaeth allweddol y gellir ei defnyddio a mentrau sylfaenol. Mae proffiliau ward bellach ar gael ar gyfer pob ardal yng Nghasnewydd, a chânt eu cyhoeddi unwaith y bydd aelodau a phartneriaeth wedi'u briffio.

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i ddinasyddion? (canlyniadau gwell)

Lluniwyd proffiliau ward syml y gall sefydliadau partner y BGLI a'r gymuned yn ehangach eu darllen. Datblygwyd Cynllun Gweithredu Partneriaeth Ardal De-ddwyrain Casnewydd yn seiliedig ar ymddygiad gwrthgymdeithasol, cyffuriau penfeddwol cyfreithlon a chynnwys teuluoedd. Dechreuwyd gwaith ar ddarpariaeth breifat. Mae'r proffiliau'n cael eu defnyddio i gynorthwyo â'r gwaith o gynllunio gwasanaethau, a bydd y gwaith hwn yn parhau i ddatblygu

3.2 Defnyddio'r dull Deall y Gymuned i lywio a llunio Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor gyda'r Gwasanaethau Cyllid, Cyfraith a Safonau, gan alluogi mwy o ymwybyddiaeth a chymorth i breswylwyr sy'n gymwys i gael Credyd Cynhwysol, cynyddu cyfranogaeth a chynrychiolaeth mewn perthynas â nifer yr etholwyr cymwys a helpu i leihau'r posibilrwydd o dwyll budd-daliadau. **GWYRDD**

Yr hyn a gyflawnwyd eleni

Etholiadau – Cyfradd ymateb ddigynsail, sef 84%, drwy negeseuon wedi'u targedu i 6,500 o gartrefi nas cofrestrwyd. Mae'r gyfradd ymateb o negeseuon a dargedwyd yn gynydd canrannol o 38% o'i gymharu â blynyddoedd a fu. O 84% i 93% ar y Gofrestr Etholiadol a gyhoeddwyd – 5,850 o eiddo ychwanegol. Gwelliannau sylweddol yn ansawdd a chywirdeb data'r Gofrestr Etholiadol. Cwsmeriaid – data proffil cwsmeriaid wedi'i baru â CRM. Mae'r segmentiad yn dynodi tebygrwydd cwsmeriaid i ddefnyddio dulliau hunanwasanaeth i ategu newid dull wedi'i dargedu fel rhan o'r Strategaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid. Gan weithio gyda NCH i helpu trigolion sydd ar fudd-daliadau lles ac sy'n gymwys i gael Credyd Cynhwysol. Dechrau cynllunio i weithredu Un Golwg Cwsmeriaid ym mhob rhan o'r Cyngor i gefnogi nifer o fentrau gan gynnwys nodi dinasyddion cyn Cofrestru Etholiadol Unigol ym mis Mehefin 2014.

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i ddinasyddion? (canlyniadau gwell)

Cyfathrebu wedi'i dargedu ynghylch y Gofrestr Etholiadol wedi arwain at welliannau sylweddol o ran ansawdd y Gofrestr Etholiadol, gan gynnig diweddariadau a hysbysiadau o fanylion ychwanegol neu ddileu manylion. Cydnabuwyd y dull hwn yn adolygiad y DU o

Gynnwys Etholwyr. Newid dull fel rhan o'r Prosbectws Newid, a gefnogir gan ddata Deall Cwsmeriaid. 42% o'r holl drafodion i'r Cyngor bellach yn rhai a wnaed yn gyfan gwbl gan y cwsmer, cynnydd o 18% o'r llynedd.

3.3 Rhoi cynllun cyfathrebu ar waith sy'n cwmpasu gwasanaethau, Cyngorwyr, preswylwyr, busnesau a sefydliadau partner i godi ymwybyddiaeth o ddull diwygiedig y Cyngor o gasglu a defnyddio data. Bydd hyn yn helpu i ddangos bod penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth, gan alluogi gwell dealltwriaeth o ran pam y gwnaed penderfyniadau, ystyried risg, cydraddoldeb a chyllid yng nghyd-destun dealltwriaeth fwy trylwyr o'n preswylwyr a'n cwsmeriaid. **GWYRDD**

Yr hyn a gyflawnwyd eleni

Sefydlu Grŵp Ymgysylltu â Chwsmeriaid (Cymuned) â phartneriaid BGLI. Gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned a chanlyniadau, gyda golwg ar gydlynw'r rhain yn fwy effeithiol. Aelodaeth grŵp, Cylch Gorchwyl a chynllun gweithredu cynhwysfawr wedi'u cytuno arnynt. Bydd sesiynau dilynol y grŵp yn canolbwyntio ar ba ymgynghoriad a gynhaliwyd, yr hyn a gynlluniwyd i'r dyfodol a sut y gellir rhannu a defnyddio meysydd ag arfer gorau; dulliau ymgysylltu; rhannu gwybodaeth; dadansoddi dulliau cyfredol o ymgysylltu; gwella gwaith llywodraethu a rhannu gwybodaeth (WASPI) a bodloni gofynion hyfforddiant ym mhob rhan o CDC a'r partneriaid sy'n rhan o'r grŵp. Mae'r grŵp Strategaeth Data yn rhannu arferion a dealltwriaeth data ac yn gweithio at 'arsyllfa' lle caiff proffiliau ward a data arall ar gwsmeriaid eu cyhoeddi, gan gyfrannu at arfer gorau.

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i ddinasyddion? (canlyniadau gwell)

Defnydd o ddata cwsmeriaid a chymunedol i lywio adolygiadau o ganolfannau cymunedol, gwasanaethau llyfrgell, a chynllunio gwasanaethau o fewn y Cyngor ac NCH. Bydd cynnig i gyhoeddi proffiliau ward a data cwsmeriaid cysylltiedig fel rhan o arsyllfa ar wefan y Cyngor yn galluogi partneriaid a'r gymuned i ddefnyddio'r un data cyfeirnod drwy aildefnyddio ac osgoi dyblygu.

Mesurau Perfformiad Allweddol

Mesur	Gwirioneddol Ch4 13/14	Targed Ch4 13/14	Blwyddyn flaenorol (Ch4) 12/13	Sylwadau
I ategu datblygiad hunanwasanaeth i gwsmeriaid, ychwanegwch gysylltiadau dewis cwsmeriaid i bob cyfeiriad CRM (C&I/L/022)	100%	100% (G)	Dd/B	Cwblhawyd ar amser
3D. Amser cyrchu, ac argaeledd y data gofynnol a Deall y Gymuned – amser ymateb i geisiadau am wybodaeth. (C&I/L/023)	2 ddiwrnod	2 ddiwrnod (G)	Dd/B	Cyflawnwyd y targed yn gyson drwy gydol y flwyddyn.
3E. Nifer yr etholwyr cofrestredig	105,351	105,524 (M)	Dd/B	
3F Datblygu dealltwriaeth o'r gymuned drwy lunio proffiliau ward i bob ardal. (C&I/L/024)	100%	100% (G)	Dd/B	Gwaith wedi'i gwblhau a'r targed

Amcan Gwella 4 – Rhianta Corfforaethol

Aelod Cabinet Arweiniol: Yr Aelod Cabinet dros Sgiliau a Gwaith a'r Aelod Cabinet dros Addysg a Phobl Ifanc

Swyddog Arweiniol: Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

Asesiad Cyffredinol: Melyn – Da. Camau gweithredu ar amser ar y cyfan ond rhai yn methu'r nod

Camau Allweddol

4.1 Caiff y Cyngor Plant sy'n Derbyn Gofal ei ddatblygu a'i gynorthwyo er mwyn sicrhau y gall gynrychioli buddiannau Plant sy'n Derbyn Gofal a dal gwasanaethau yn atebol.

GWYRDD

Yr hyn a gyflawnwyd eleni

Cynhaliwyd 10 sesiwn dros y cyfnod hwn gan ganolbwyntio ar:

- Sefydlu'r grŵp
 - Cwrdd â Swyddogion Arweiniol ym meysydd Hamdden, y Cartref, 16+
 - Dosbarthwyd pecynnau Plant sy'n Derbyn Gofal i'r grŵp a allodd wneud newidiadau
 - Lluniwyd taflen CiCC ac fe'i hanfonwyd i'r holl blant sy'n derbyn gofal
 - Aeth aelodau CiCC i fforwm aelodau a chafwyd negeseuon adborth gan y grŵp
 - Cwrdd ag Arolygwyr AGGCC
 - Crëwyd agenda i'r flwyddyn ganlynol gyda'r holl gyfranogion yn cael gwahoddiad
 - Gweithio ar y broses Adolygu Plant sy'n Derbyn Gofal ac ar sut y caiff y rhain eu cynnal
 - Trafod darpariaeth Gofal Preswyl a Gofal Maeth â'r hyn sydd er budd gorau'r plentyn
- Trafod rôl y Lleoliad

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i ddinasyddion? (canlyniadau gwell)

Mae gan Blant a Phobl Ifanc system ar waith, lle gallant roi adborth i aelodau, Arweinwyr a Chynghorwyr ar ofal. Gall plant a phobl ifanc ddylanwadu ar y ddarpariaeth mewn ffordd ystyriol. Caiff plant a phobl ifanc eu grymuso i godi pryderon, meysydd i'w gwella ac arfer da. Dylai pob plentyn a pherson ifanc yn CDC wybod am y CiCC, eu diben a sut i roi adborth. Mae statws y grŵp yn y sefydliad yn gadarnhaol – cynnal grŵp annibynnol a all 'ddwyn swyddogion a'r fforwm aelodau rhianta corfforaethol i gyfrif fel eu rhieni corfforaethol'.

4.2 Rhoddir cyfleoedd â blaenoriaeth yng Nghyngor Dinas Casnewydd i Blant sy'n Derbyn Gofal a phobl ifanc sy'n gadael gofal i gael profiad gwaith a datblygu sgiliau mewn amgylchedd cynorthwyol. Y rhaglen dysgu sy'n seiliedig ar waith yw cam cyntaf y broses o ddatblygu llwybr tuag at brentisiaethau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a phobl ifanc sy'n gadael gofal. Bydd hyn yn mynd i'r afael â'r ffaith bod y plant hyn yn aml ymhlith y rheini sydd wedi'u heithrio fwyaf o ran gwaith a sgiliau. **GWYRDD**

Yr hyn a gyflawnwyd eleni

Rhoddyd profiad gwaith i ddau berson ifanc, ond ni allai'r ddau arall fanteisio arno am resymau personol.

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i ddinasyddion? (canlyniadau gwell)

Cefnogwyd pobl ifanc i gael profiad gwaith â darparwyr eraill sydd â dealltwriaeth o brofiadau bywyd pobl ifanc a'r effaith y gall gael ar eu hymddangosiad a'u gallu i ddelio â straen a hunanwerth a hyder. Gwnaethant fwynhau'r profiad yn fawr iawn. Yn anffodus oherwydd materion personol ni allai 2 berson ifanc ddod ar yr achlysur hwn ond gobeithio y byddant yn gallu dod ar y cyfle nesaf. Cefnogwyd darparwyr mewn ffordd i ganiatáu iddynt gefnogi'n briodol plant a phobl ifanc.

[4.3 Bydd opsiynau tai â chymorth newydd ar gael i bobl ifanc sy'n gadael gofal, yn cynnwys cynllun tai cymorth a rennir ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal, a chynllun lleoliadau tenantiaeth â chymorth a gynigir mewn partneriaeth â Newport City Homes.](#) **GWYRDD**

Yr hyn a gyflawnwyd eleni

Daethpwyd o hyd i lety byw a rennir yn lle gwely a brecwast. Cefnogwyd cynllun lleoliad tenantiaethau a gefnogir gyda darparwyr tai. Mae pobl ifanc wedi cael cyfle i ddilyn cwrs MyPad i'w paratoi at fyw'n annibynnol.

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i ddinasyddion?

Mae llety byw a rennir ar gael yn ddewis amgen i lety gwely a brecwast. Ehangwyd tenantiaethau â chymorth â Chartrefi Dinas Casnewydd i gynnig llety i hyd at 4 deiliad.

[4.4 Cynhelir rhaglen o sesiynau datblygu ar gyfer gofawyr maeth o ran cynorthwyo Plant sy'n Derbyn Gofal gyda'u datblygiad addysgiadol, iechyd, hamdden, cymdeithasol a phersonol a allai helpu i fynd i'r afael â thanberfformio yn y maes hwn, tra'n gwella hyder a sgiliau rhieni maeth a chynnig amgylchedd cynorthwyol. Bydd hyn yn cyfrannu at leihau nifer y newidiadau o ran lleoliadau \(heblaw am achosion lle mae newidiadau yn cynrychioli canlyniadau cadarnhaol\).](#) **GWYRDD**

Yr hyn a gyflawnwyd eleni

Lansiwyd y Tîm Cymorth Paru a Lleoliadau ym mis Hydref 2013. Mae rhaglen Dysgu a Datblygu Maethu Casnewydd ar gyfer Ebrill 2014 – Mawrth 2015 yn cynnig rhaglen sefydlu 6 sesiwn i ofalwyr maeth a gymeradwywyd yn newydd sy'n ategu eu hyfforddiant cyn eu cymeradwyo, a hyfforddiant uwch i ofalwyr maeth mewn nifer o bynciau craidd.

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i ddinasyddion? (canlyniadau gwell)

Roedd y sesiynau hyn yn boblogaidd a bu'r adborth yn gadarnhaol.

[4.5 Bydd Cynllun Addysg Bersonol ar waith ar gyfer pob Plentyn sy'n Derbyn Gofal ac anogir y bobl ifanc i fod yn rhan o'r broses gynllunio. Mae'r Cynllun Addysg Bersonol yn ddogfen allweddol gan ei bod yn helpu pawb i gael dealltwriaeth glir o'r ddarpariaeth addysgu a dysgu sy'n angenrheidiol i ddiwallu anghenion addysgiadol pobl ifanc sy'n derbyn gofal. Bydd angen dull gweithredu cydgysylltiedig rhwng y gwasanaeth addysg, y gwasanaethau cymdeithasol a'r teuluoedd y maent yn gweithio gyda hwy i wella hyn.](#) **GWYRDD**

Yr hyn a gyflawnwyd eleni

- Cynhaliwyd cynllun peilot. Achubodd y Cydlynnydd Addysg i Blant sy'n Derbyn Gofal y blaen wrth ddechrau Cynlluniau Addysg Bersonol i blant sy'n derbyn gofal, teuluoedd, gwasanaethau cymdeithasol a staff Addysg.
- Cofnodwyd nifer a chanran y cynlluniau addysg bersonol.

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i ddinasyddion? (canlyniadau gwell)

Mae Cynlluniau Addysg Bersonol yn nodi i ddarparwyr y ffaith fod plentyn yn derbyn gofal a gallai fod ganddo anghenion ychwanegol o ganlyniad i'w amgylchiadau. Mae gan y Cynllun Addysg Bersonol dargedau penodol sy'n rhoi cyfle i bobl sy'n gweithio gyda'r plant ddatblygu i'w potensial llawn.

4.6 Caiff tîm iechyd emosiynol ac iechyd meddwl ei sefydlu i weithio gyda phlant sy'n derbyn gofal a'u teuluoedd. Bydd y gwasanaeth newydd hwn yn cynghori ac yn cynorthwyo gofalwyr i ddeall anghenion iechyd emosiynol ac iechyd meddwl y plant sy'n derbyn gofal ganddynt. Yn ogystal byddwn yn cynnig gweithio'n uniongyrchol â'r plant nad ydynt yn gallu defnyddio gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed. **GWYRDD**

Yr hyn a gyflawnwyd eleni

O fis Hydref 2013 i fis Mawrth 2014, mae'r Tîm MAPS wedi cynnal 51 o Ymgynghoriadau Rhwydwaith neu Ymgynghoriadau i blant sy'n derbyn gofal maeth. Mae Ymgynghoriadau Rhwydwaith yn ymyrraeth therapiwtig i Blant sy'n Derbyn gofal sydd â Gofalwyr Maeth yng Nghasnewydd sy'n rhoi cyfle dysgu i ofalwyr maeth i wella eu dealltwriaeth o sut y gall profiadau blaenorol plant effeithio ar eu datblygiad emosiynol a chymdeithasol. Mae cynllun dysgu a datblygu tîm MAPS ar gyfer Ebrill 2014-Mawrth 2015 yn cynnwys cyfleoedd hyfforddi penodol a hwylusir gan dîm MAPS i ofalwyr maeth i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder a'u dealltwriaeth o ymlyniad a chodi ymwybyddiaeth o werthoedd a sut y caiff y rhain eu cynnwys ym mywyd teuluol, sut y mae gwerthoedd teuluoedd yn effeithio ar feithrin perthnasau, yn gwella'r gallu i ddefnyddio'r dull rhianta sefydlog, nodi'r gwahaniaeth ym mywyd/rolau teuluol, diwylliannau.

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i ddinasyddion? (canlyniadau gwell)

Caiiff gwerthusiadau o'r rhwydwaith a slotiau ymgynghori eu casglu bob chwarter.

Teimlai 91% o gyfranogwyr i NCM/ymgynghori iddo wella eu dealltwriaeth o'r plentyn

Teimlai 87.5% o gyfranogwyr i NCM/ymgynghoriadau yn fwy hyderus o ran cefnogi/gofalu am y plentyn

Teimlai 87.5% o gyfranogwyr i NCM/ymgynghoriadau gael effaith gadarnhaol ar gefnogi'r plentyn

Mesurau Perfformiad Allweddol

Mesur	Gwirioneddol Ch4 13/14	Targed Ch4 13/14	Blwyddyn flaenorol (Ch4) 12/13	Sylwadau
4A Nifer y bobl ifanc ar raglen dysgu sy'n seiliedig ar waith yng Nghyngor Dinas Casnewydd	3	3 (G)	Dd/B	Cyflawnwyd y targed a chafwyd adborth cadarnhaol o leoliadau. Cefnogi pobl ifanc i fanteisio ar raglenni WBL o fewn CDC bellach yn ennill momentwm
4B Plant sy'n derbyn gofal yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden	63.25%	95% (C)	Dd/B	Amlygodd y broses hunanwerthuso flynyddol y proseswyd cardiau'n anghyson
	4,922	2,100 (G)	Dd/B	

				yn ystod chwarter 2. Rhoddwyd gweithdrefnau a disgrifiadau clir ar waith i fonitro cardiau aelodaeth a ddyrannwyd i blant sy'n derbyn gofal. Cyfranogiad mewn cyfleusterau'n rhagori ar dargedau i gael mynediad gwell i gyfleusterau a rhaglenni
4C Plant sy'n derbyn gofal yn defnyddio llyfrgelloedd	100%	98% (G)	Dd/B	Gweithiodd y gwasanaeth gyda'r gwasanaethau cymdeithasol i roi pecyn llyfrgell i'r holl blant a gydnabyddir gan yr Awdurdod fel rhai sy'n derbyn gofal. Eleni roedd yr holl blant hynny'n mynd i'r llyfrgell.
	100	60% (G)	Dd/B	
4D Nifer y tenantiaethau a sefydlwyd yn ystod y flwyddyn gyda Newport City Homes ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal	7	5 (G)	Dd/B	Gwaith cadarnhaol rhwng NCH a'r tîm 16+ yn sicrhau nifer uwch o denantiaethau.
4E Nifer/canran y bobl ifanc sy'n gadael gofal sydd yn dal i gael llety mewn unedau/llety ar ôl 12 mis	100%	100% (G)	Dd/B	Llety addas cynaliadwy i'r rhai sy'n gadael gofal yn dal i fod yn faes sydd angen sylw. Mae'r gwaith gyda'r NCH a datblygu tai yn gadarnhaol ond mae angen amser iddo sefydlu
4F SCC/033e) - Pobl ifanc sy'n gadael gofal sydd mewn llety addas	100%	90% (G)	88.9% (G)	Llety addas cynaliadwy i'r rhai sy'n gadael gofal yn dal i fod yn faes sydd angen sylw. Mae'r gwaith gyda'r NCH a datblygu tai yn gadarnhaol ond mae angen amser iddo sefydlu. 27 o bobl sy'n gadael gofal
4G SCC/033f) – Pobl ifanc sy'n	51.9%	60% (M)	66.7% (C)	Mae angen cymorth a

gadael gofal sydd mewn Addysg, Hyfforddiant neu Gyflogaeth				gwyliadwriaeth ar bobl agored i niwed sy'n gadael gofal. Eto, gwaith gydag asiantaethau eraill yn dwyn ffrwyth ond bydd yn cymryd amser i gael ei wireddu'n llawn. 27 o bobl ifanc yn gadael gofal, 14 sydd mewn Addysg, Hyfforddiant neu Gyflogaeth
4H SCC/037 – Cyrhaeddiad Addysgol Plant sy'n Derbyn Gofal sy'n 16 oed (sgôr pywntiau allanol)	244	195 (G)	190 (G)	Plant sy'n Derbyn Gofal gyda chymorth yr holl staff perthnasol wedi rhagori ar ddisgwyliadau cyrhaeddiad disgwylidig
4J SCC/024 – Canran y Cynlluniau Addysg Bersonol sydd ar waith o fewn 20 diwrnod o ddechrau yn yr ysgol	95.3%	85% (G)	83.6% (G)	Gwaith LACES wedi sicrhau bod Cynlluniau Addysg Bersonol wedi'u cwblhau ac y rhagorwyd ar y targed. 43 o blant, 41 â Chynlluniau Addysg Bersonol ymhen 20 diwrnod.
4K % Canran cyfranogiad pobl ifanc mewn Cynlluniau Addysg Bersonol	88.37%	80% (G)	Dd/B	Gwaith LACES wedi sicrhau cyfranogiad sy'n rhagori ar y targed o ran cyfranogi pobl ifanc yn y Cynlluniau Addysg Bersonol
4L SCC/004 Sefydlogrwydd lleoliadau Plant sy'n Derbyn Gofal (mewn achosion lle mae mwy na 3 lleoliad yn ystod y flwyddyn)	10.9%	8% (C)	6.8% (C)	Mae natur y targed hwn yn golygu bod symud lleoliadau hefyd wedi'u hadlewyrchu yn y canrannau. Roedd cynnydd yn nifer y mabwysiadwyr y llynedd a fu'n gadarnhaol o ran perfformiad. Newid lleoliadau yn gydradd yn dilyn lleoliad mewn argyfwng hefyd wedi'u cynnwys. Darpariaeth MAPS yn priodoli yn erbyn newid lleoliadau negyddol nas

				cynlluniwyd. 286 o blant sy'n derbyn gofal, 31 â 3 neu fwy o leoliadau
--	--	--	--	--

Amcan Gwella 5 – Trothwy Lefel 2 Saesneg a Mathemateg

Aelod Cabinet Arweiniol: Yr Aelod Cabinet dros Addysg a Phobl Ifanc

Swyddog Arweiniol: Pennaeth Addysg

Asesiad Cyffredinol: Melyn – Da. Mae'r camau gweithredu sy'n gysylltiedig â mesurau 5A a B wedi bod yn llwyddiannus iawn. Dros y flwyddyn academaidd ddiwethaf mae tystiolaeth glir o ragor o fonitro ac atebolrwydd yn gysylltiedig â Chynlluniau Gwella Ysgol, gan sicrhau dull di-dor o wario arian grant a dargedir (Grant Amddifadedd Disgyblion a Grant Effeithiolrwydd Ysgolion). Mae'n amlwg bod y bartneriaeth rhwng yr Awdurdod Lleol, ysgolion a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn un llwyddiannus (gan fod her a chymorth yn amlwg drwy ddatblygiad Cynlluniau Ymyrraeth a threfniadau broceru). Mae ysgolion wedi defnyddio profion Lythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn dda i benderfynu yn lle y dylid targedu gwelliant i wella cyrhaeddiad disgyblion. Mae cynllun clir i ddatblygu'r fframwaith llythrennedd a rhifedd yn yr holl ysgolion. Disgrifir perfformiad cyffredinol fel 'da' (camau gweithredu a mesurau ar amser fwy na heb, un neu ddau'n methu'r targedau a gynlluniwyd o drwch blewyn).

Camau Allweddol

5.1 Sicrhau y gweithredir strategaethau a chynlluniau gwella ysgolion unigol. Bydd ysgolion yn defnyddio data blaenorol ar berfformiad disgyblion i ystyried eu blaenoriaethau eu hunain a chynnal proses hunanwerthuso a gwella effeithiol sy'n canolbwyntio ar anghenion dysgwyr. **GWYRDD**

Yr hyn a gyflawnwyd eleni

Cyflwynwyd a chymeradwywyd yr holl Gynlluniau Gwella Ysgolion Uwchradd gan Arweinwyr System yn nhymor yr Hydref 2013 (yn seiliedig ar ddata blaenorol / perfformiad disgyblion). Cafodd pob un ei fonitro, ei weithredu a'i integreiddio i mewn i'r cylch parhaus o hunanwerthuso (gan ganolbwyntio ar anghenion a pherfformiad gwell dysgwyr).

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i ddinasyddion? (canlyniadau gwell)

Mae gan Gynlluniau Gwella Ysgol clir, wedi'u ffurfio'n dda, y gallu i wella perfformiad disgyblion. Mae Cynlluniau Gwella Ysgol da wedi cyfrannu at:

- Gwella perfformiad Lefel 2 Cynhwysol
- Mae gwelliant ym mherfformiad disgyblion sy'n cyflawni Lefel 2 Cynhwysol sydd â hawl i brydau ysgol am ddim.

5.2 Sicrhau y gweithredir cynlluniau ymyrryd priodol ar gyfer yr ysgolion hynny y nodwyd bod angen cymorth ac ymyrraeth pellach arnynt, yn cynnwys ysgolion Band 4. Bydd ysgolion y ceir pryder yn eu cylch yn derbyn y cymorth y mae ganddynt yr hawl iddo, gan eu galluogi i wella perfformiad disgyblion a chynnal cynnydd dros amser. **GWYRDD**

Yr hyn a gyflawnwyd eleni

Ysgrifennwyd yr holl gynlluniau ymyrraeth sy'n ofynnol i ysgolion eu datblygu ac sy'n peri pryder eu hysgrifennu mewn cydweithrediad â'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg, yr ALI a'r

Ysgol. Cafodd yr holl ysgolion Band 4 a 5 gymorth ychwanegol gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg. Nodwyd pecynnau cymorth pwrpasol ac fe'u dosbarthwyd gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn seiliedig ar angen dysgwyr

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i ddinasyddion? (canlyniadau gwell)

Mae'r cynllun y cytunwyd arno wedi sicrhau bod ysgolion sy'n peri pryder yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt a bod cynnydd amserol yn cael ei wneud. Bydd hyn yn sicrhau bod ysgolion yn dal i wella'r dangosydd L2 Cynhwysol, a fydd yn cyfrannu at wella perfformiad cyffredinol yn yr ALI (L2 cynhwysol ar hyn o bryd yn 51.3%). Pennwyd y targed ar 51.4% ac felly fe'i methwyd o 0.1%. Mae hyn gyfystyr â 2 ddisgyblion yn cyflawni'r lefel ofynnol.

5.3 Sicrhau y gweithredir strategaethau Llythrennedd a Rhifedd ym mhob ysgol. Bydd ysgolion yn gwella'u gallu i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion, gan alluogi plant a phobl ifanc i fanteisio ar gwricwlwm eang a chytbwys a chyflawni eu potensial llawn.

GWYRDD

Yr hyn a gyflawnwyd eleni

Rhoddyd cymorth ar y Fframwaith Rhifedd a'r Fframwaith Llythrennedd Cenedlaethol i'r holl ysgolion uwchradd drwy'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg a CfBT. Cwblhawyd archwiliadau i nodi bylchau. Datblygwyd cynlluniau gweithredu yn seiliedig ar anghenion staff a'r cwricwlwm. Mae'r holl gynlluniau gweithredu'n mynd rhagddynt yn amserol. Mae ysgolion (mewn cydweithrediad â'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg) wedi nodi rhaglenni ymyrraeth rhifedd a llythrennedd penodol sydd eu hangen i wella cyfradd y disgyblion sy'n cynyddu yn Saesneg a Mathemateg. Fe'i hariannwyd gan y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion, y Grant Amddifadedd Disgyblion a chyllideb graidd yr ysgol

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i ddinasyddion? (canlyniadau gwell)

Mae cyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn hanfodol wrth sicrhau bod dull trawsgwricwlaidd o wella sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Yn ei dro bydd hyn yn galluogi disgyblion i gyflawni TGAU Mathemateg a Saesneg a TGAU ychwanegol (a fydd gyfystyr â'r dangosydd Lefel 2 Cynhwysol) Mae ymyrraeth bwrpasol yn galluogi ysgolion i wella meysydd dysgu penodol o fewn Mathemateg a Saesneg e.e. ysgrifennu, cyfrifyddu ysgrifenedig a meddyliol. Mae hyn yn annog dull mwy fforensig ac wedi'i dargedu o ymdrin â gwella L2 cynhwysol.

5.4 Sicrhau y gwneir defnydd effeithiol o'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Grant Amddifadedd Disgyblion i wella canlyniadau. Bydd ysgolion yn sicrhau bod y grantiau hyn yn canolbwyntio ar ddatblygu llythrennedd, rhifedd a mynd i'r afael â thlodi ac anfantais. Caiff y disgyblion hynny sy'n wynebu'r risg fwyaf o beidio â chyflawni eu lefelau cyrhaeddiad disgwyliedig eu holrhain, a chymerir camau ymyrryd amserol **GWYRDD**

Yr hyn a gyflawnwyd eleni

Cafwyd a chymeradwywyd cynlluniau cyllidebol y Grant Amddifadedd Disgyblion a'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion gan Arweinwyr System yn nhymor yr haf 2013. Sicrhodd hyn fod gwariant grant wedi bodloni'r telerau ac amodau, hynny yw bod anghenion dysgwyr a'r rhai dan anfantais oherwydd tlodi wedi'u blaenoriaethu. Systemau olrhain lefel disgyblion ar waith drwy ysgolion uwchradd. Bydd Arweinwyr System yn dal i edrych ar waith gydag Uwch Dimau Arwain i wella a mireinio prosesau olrhain lefel disgyblion a sicrhau bod disgyblion sydd mewn perygl o beidio â chyflawni yn cael cymorth ac ymyrraeth. Mae hyn yn cynnwys disgyblion sydd dan anfantais oherwydd tlodi.

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i ddinasyddion? (canlyniadau gwell)

Gwariodd pedair o wyth ysgol uwchradd Casnewydd 100% o'u dyraniad Grant Amddifadedd Disgyblion a Grant Effeithiolrwydd Ysgolion.

Gwariodd tair ysgol dros 98%. Gwariodd un ysgol dros 96% o'r grant. Cododd nifer y disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim sy'n cyflawni L2 cynhwysol o 20% yn 2011/12 i 22.49 yn 12/13. Methwyd y targed o 26.5%, ond gwelodd ALI Casnewydd gyfradd y disgyblion oedd a hawl i brydau ysgol am ddim sy'n cyflawni L2 cynhwysol, ar yr un gyfradd lwyddo â chyfartaledd Cymru.

Mae angen i ALI Casnewydd wella'r dangosydd hwn. Rhoddwyd rhagor o adnoddau cenedlaethol a chymorth wedi'i dargedu i flaenoriaethu'r dangosydd hwn yn 2013/14.

Mesurau Perfformiad Allweddol

Mesur	Gwirioneddol 13/14 (Blwyddyn academaidd 2012/13)	Targed 13/14 (Blwydd yn academaidd 2012/13)	Gwirioneddol 12/13 (Blwyddyn academaidd 11/12)	Cyfartaledd Cymru 13/14 (Blwydd yn academaidd 2012/13)	Sylwadau.
5A Y targed yw cynyddu'r gyfran o bobl ifanc sy'n cyflawni'r trothwy L2 yn cynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg o 49.2% i 51.4% yn y flwyddyn academaidd 2012/13 ac i 53.5% yn y flwyddyn academaidd 2013/14	51.32%	51.4% (M)	49.2% (G)	52.7% (M)	Pennwyd y targed ar 51.4% ac felly fe'i methwyd o 0.1%. Mae hyn gyfystyr â 2 o ddisgyblion yn cyflawni'r lefel ofynnol. 1787 o ddisgyblion a aseswyd, cyflawnwyd 917 drothwy lefel 2
5B Bydd cyfran uwch o bobl ifanc sydd â'r hawl i gael cinio ysgol am ddim yn cyflawni'r trothwy L2 yn cynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg	22.49%	26.5% (M)	20% (G)	25.8% (M)	Gwellodd nifer y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni L2 Cynhwysol wedi gwella o 20% yn 2011/12 i 22.49% yn 12/13.

					<p>Methwyd y targed o 26.5%; ond gwelodd ALI Casnewydd gyfradd y disgyblion â hawl i brydau ysgol a ddim a gyflawnodd L2 Cynhwysol, ar yr un gyfradd wella â chyfartaledd Cymru.</p> <p>249 o ddisgyblion yn hawlio prydau ysgol am ddim, 65 yn cyflawni trothwy lefel 2</p>
--	--	--	--	--	--

Amcan Gwella 6 – Adfywio a Datblygu'r Ddinas

Aelod Cabinet Arweiniol: Yr Aelod Cabinet dros Adfywio a Datblygu a'r Aelod Cabinet dros Sgiliau a Gwaith

Swyddog Arweiniol: Cyfarwyddwr Strategol - Lleoedd

Asesiad Cyffredinol: Melyn – Da. Mae pob cam gweithredu ar amser ac er gwaetha'r ffaith i ddau fesur fethu'r targed cyflawnwyd llawer iawn o waith o ran adfywio'r ddinas ar y cyfan

Camau Allweddol

6.1 Caiff Cynllun Gwella'r Ddinas ei weithredu gyda gwaith arfaethedig yn ardal y farchnad a gwaith ar dir y cyhoedd dros y ddwy flynedd nesaf. Bydd cwblhau'r orsaf fysus yn dod â chymudwyr a siopwyr i garreg y drws y farchnad dan do, gan wella hyfywedd y busnesau hyn. Bydd y gwaith ar y Farchnad yn adfer mynediad yr Heol Fawr i ganol yr adeilad ac yn creu unedau bach craff newydd i'w defnyddio fel siopau neu fwytai, a'r gwaith ehangach. Bydd y gwelliannau ffisegol hefyd yn cynnwys cyflawni'r rhaglen adeiladau allweddol a chyflawni cam 2 Fframwaith Adfywio Pillgwenlli. **GWYRDD**

Yr hyn a gyflawnwyd eleni

Cwblhawyd gwaith ar Gornel y Farchnad gan gynnwys ailwampio Mynediad yr Heol Fawr i Farchnad Casnewydd, gorsaf fysus newydd Sgwâr y Farchnad a'r gwaith amgylchynol ar dir cyhoeddus. Cwblhawyd 7 adeilad allweddol yng nghanol y ddinas. Dyfarnwyd 100% o gais Vibrant Llywodraeth Cymru am £14.9m i CDC. Bydd hyn yn cyflawni projectau adfywio yn 2014/15 – 2016/17. Mae datblygiad Friars Walk wedi dechrau a bydd y safle'n cael ei drosglwyddo i Queensbury. Dechreuwyd ar waith paratoi gyda pherchenogion eiddo'r 2 floc olaf yng ngwaith Adfywio Pillgwenlli. Bydd y gwaith ffisegol yn dechrau ym Mai 2014. Rhoddwyd adeilad y Farchnad ar y rhestr fer am ddyfarniad cenedlaethol Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig – canlyniad Mai 2014.

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i ddinasyddion? (canlyniadau gwell)

Nifer yr ymwelwyr â'r Farchnad Dan Do wedi cynyddu 40%. Manwerthwyr wedi adrodd cynnydd yn nifer y cwsmeriaid a masnachu. Mae'r lleihad yn nifer yr ymwelwyr â chanol y ddinas yn lleihau ond ar gyfradd fwy sefydlog; deillio o golli nifer o fanwerthwyr. 3 eiddo gwag bellach yn cael eu defnyddio eto yn uniongyrchol oherwydd grant Adeiladau Allweddol. Ar goedd, mae hyder y cyhoedd wedi cynyddu oherwydd y buddsoddiad parhaus a'r cynlluniau y bwriedir eu cyflawni yng nghanol y ddinas.

6.2 Cynigir cymorth a dargedwyd i fusnesau, yn cynnwys system fwy cynaliadwy o roi cymorth ariannol i fusnesau ar ffurf cynllun benthyciadau busnes newydd. Bydd y Cyngor hefyd yn cynorthwyo busnesau lleol drwy eu helpu i sicrhau Ardal Gwella Busnes newydd. .

GWYRDD

Yr hyn a gyflawnwyd eleni

Cymeradwywyd 5 benthyciad busnes gwerth £22,323. Cymeradwywyd 6 grant dechrau busnes UK Steels gwerth £2,930. Rhoddwyd cyngor ar 162 o ymholiadau gan fusnesau newydd. Rhoddwyd cyngor i 314 o fewnfuddsoddwyr posibl yn arwain at 9 cwmni a 407 o swyddi'n dod i Gasnewydd. Gwaith cyflawni wedi dechrau ar gynllun talebau band eang tra chyflym Dinas Uwch-gysylltiedig, gan dargedu hyd at 1700 o fusnesau bach a chanolig yng Nghasnewydd. Crëwyd y grŵp llywio i'r Ardal Gwella Busnes gyda golwg ar gynnal pleidlais ar ei chyflawni ym mis Tachwedd 2014.

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i ddinasyddion? (canlyniadau gwell)

Mae dros 400 o fusnesau wedi cael budd o gyngor busnes arbenigol. Mae 11 busnes wedi cael budd o gymorth ariannol uniongyrchol drwy fenthyciad neu grant i fusnesau newydd – 6 ohonynt yn fusnesau newydd. Crëwyd 22 o swyddi a diogelwyd 38 o ganlyniad. Mae 9 cwmni wedi adleoli i Gasnewydd gan fod o fudd i'r economi ac arwain at greu cyfleoedd cyflogaeth.

Mae busnesau canol y ddinas bellach wrthi'n helpu i ddatblygu'r gwaith o reoli canol y ddinas yn y dyfodol drwy greu grŵp llywio BID.

6.3 Bydd mwy o hyfforddiant a sgiliau gwell yn galluogi pobl leol i gael swyddi lleol o ansawdd pan gaiff y swyddi hynny eu creu. **GWYRDD**

Yr hyn a gyflawnwyd eleni

Cafodd 1302 o bobl eu cynnwys mewn projectau dysgu a hyfforddi, gan amrywio o lunio CV, chwilio am swydd, sgiliau sylfaenol, hyfforddiant galwedigaethol a chymwysterau achrededig. Rydym wedi helpu 612 o bobl i ddod o hyd i swydd.

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i ddinasyddion? (canlyniadau gwell)

Sgiliau a chymwysterau gwell; cyfle gwell i drigolion ddod o hyd i swydd. Mae cynorthwyo trigolion â dod o hyd i waith hefyd yn gwella ansawdd bywyd ac iechyd.

Mesurau Perfformiad Allweddol

Mesur	Gwirioneddol Ch4 13/14	Targed Ch4 13/14	Blwyddyn flaenorol (Ch4) 12/13	Sylwadau
6A Nifer y benthyciadau	3	12 (C)	Dd/B	Yn 2013/14 gwnaethom

cymorth busnes a roddwyd				ymrwymo i lansio cynllun benthyciadau i ddisodli'r cynllun grantiau busnes cyfredol.
6B Gwerth y benthyciadau cymorth busnes a roddwyd mewn punnoedd	£11,500	£75,000 (C)	Dd/B	Lansiwyd y cynllun ym Medi 2013 gan yr Aelod Cabinet, a fynychwyd gan dros 40 o fusnesau lleol. Ers Medi bu 102 o ymholiadau am fenthyciadau, gyda 13 ohonynt yn datblygu. Ond ar 31 Mawrth ni wnaeth rhai projectau fwrw ymlaen, gydag un yn bwrw ymlaen heb gwblhau cais am fenthyciad. Cyflwynwyd 2 gais yn hwyrach na'r disgwyl ac fe'u cymeradwywyd ym mis Ebrill.
6C Nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni cyflogaeth	1302	1300 (G)	2175 (C)	Rydym wedi cyflawni'r targed hwn. Bu gostyngiad sylweddol yn nifer y bobl ddi-waith yn ymuno â'r cynllun eleni o'i gymharu â 2012/13. Roedd 1302 o fusnesau newydd, gyda llwyth achos 2013/14 yn cynnwys mwy na 2000 o bobl. Rydym wedi llwyddo i gael mwy o bobl i'r gwaith eleni nag erioed o'r blaen gan ddangos newid cadarnhaol yn yr economi. Rydym yn disgwyl niferoedd tebyg i brojectau yn 2015/16. Mae'r cynnydd hwn mewn niferoedd yn unol â gostyngiad yn ystadegau diweithdra cenedlaethol.
6D Nifer y bobl a gafodd gymorth i ddod o hyd i swydd	612	605 (G)	576 (M)	Rydym wedi bwrw'r targed hwn. Gyda'r gwelliant yn yr economi rydym yn gweld rhagor o gyfleoedd i ddatblygu gweithgynhyrchu, manwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid. At hyn, mae'r cymorth rhagweithiol a roddwn i'n partneriaid BGLI drwy WBLA. Yn 2014/15 rydym yn rhagweld perfformiad tebyg os nad yn well wrth ystyried datblygiadau Friars Walk a VVP yng nghanol y ddinas.

Amcan Gwella 7 – Rheoli Gwastraff

Aelod Cabinet Arweiniol: Yr Aelod Cabinet dros Seilwaith

Swyddog Arweiniol: Pennaeth Strydlun

Asesiad Cyffredinol: Gwyrdd – Rhagorol. Mae pob cam gweithredu ar amser, a gwnaed cynnydd yn y maes hwn ac ni fethwyd y targed ailgylchu eithr o 0.31%.

Camau Allweddol

7.1 Rhoi Cynllun Gwastraff Cynaliadwy newydd ar waith yn cynnwys casglu deunydd cerdyn sy'n cael ei wahanu yn y tarddle (dwy flynedd). **GWYRDD**

Yr hyn a gyflawnwyd eleni

Cyflwynwyd casglu deunydd cerdyn a wahanir yn ôl ffynhonnell gyda 30,200 o eiddo'n cael cynwysyddion ailgylchu yn erbyn targed o 12,500 i Chwarter 4.

Paratodau i barhau â hyn a chwblhau'r gwaith o'i gyflwyno i bob ardal yn 2014/15.

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i ddinasyddion? (canlyniadau gwell)

Annog trigolion Casnewydd nad ydynt yn ailgylchu ar hyn o bryd yn rheolaidd i ailgylchu mwy.

Gwella bywydau pobl. Gostyngiad yn y gwastraff a ddanfonir i safleoedd tirlenwi a'r dreth a delir gan yr awdurdod. Mae llwyddiant y mesur hwn yn ysgogi cyfraniad Strydlun at Amcanion Gwella Dinas Wyrddach ac Iachach y Cyngor.

7.2 Parhau â'r Rhaglen Caffael Seilwaith Rheoli Gwastraff er mwyn sicrhau cyfleusterau rheoli gwastraff hirdymor. **GWYRDD**

Yr hyn a gyflawnwyd eleni

Mae'r gwaith o adeiladu safle Prosiect Gwyrdd yn parhau. Cyfarfodydd cynnydd misol i fonitro cynnydd. Dechreuwyd ar adeiladu Cwm Yfory. Cyfarfodydd cynnydd misol i fonitro cynnydd.

Dosbarthu taflenni gwybodaeth cwsmeriaid a dechrau cyflwyno biniau 180 litr gyda 40,900 o eiddo'n cael y biniau newydd yn erbyn targed Chwarter 4 o 15,000. Paratoi i barhau a chwblhau'r gwaith o'u cyflwyno yn 2014/15.

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i ddinasyddion? (canlyniadau gwell)

Bydd canlyniadau gwell yn dechrau cael eu cyflawni i'r holl randdeiliaid wedi cwblhau cam adeiladu'r projectau. Bydd y safleoedd ar waith erbyn:

Prosiect Gwyrdd - Hydref 2015

Cwm Yfory - Hydref 2014

Annog trigolion Casnewydd nad ydynt yn ailgylchu ar hyn o bryd yn rheolaidd i ailgylchu mwy.

Gostyngiad yn y gwastraff a ddanfonir i safleoedd tirlenwi a'r dreth a delir gan yr awdurdod.

Mae llwyddiant y mesur hwn yn ysgogi cyfraniad Strydlun at Amcanion Gwella Dinas

Wyrddach ac Iachach y Cyngor.

Gwella bywydau pobl

7.3 Parhau i gyflwyno biniau 180 litr i'r eiddo sy'n weddill er mwyn lleihau'r capasiti ar gyfer gwastraff gweddilliol, gan olygu y caiff mwy o ddeunyddiau eu dargyfeirio i'w hailgylchu.

GWYRDD

Yr hyn a gyflawnwyd eleni

Nifer y cwsmeriaid ailgylchu gwastraff masnachol yn 2013/14 yn 901 – y targed oedd 900.

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i ddinasyddion? (canlyniadau gwell)

Dargyfeirio gwastraff masnachol o safleoedd tirlenwi. Gwella bywydau pobl. Yn gyrru cyfraniad Strydlun at Amcanion Gwella Dinas Wyrddach ac Iachach y Cyngor. Yn rhoi incwm ariannol sy'n ategu'r gwasanaethau a ddarperir gan yr awdurdod i'w randdeiliaid. Ystod ehangach o wasanaethau i fusnesau yn eu galluogi i ddod yn amgylcheddol gynaliadwy a lleihau gorbenion gwastraff.

7.4 Cynyddu cyfraddau ailgylchu masnachol er mwyn cynyddu faint o ddeunydd ailgylchu a gesglir. **GWYRDD**

Yr hyn a gyflawnwyd eleni

Cyflwynwyd casglu deunydd cerdyn a wahenir yn ôl ffynhonnell gyda 30,200 o eiddo'n cael cynwysyddion ailgylchu yn erbyn targed o 12,500 i Chwarter 4. Paratoi i barhau a chwblhau eu cyflwyno yn 2014/15.

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i ddinasyddion? (canlyniadau gwell)

Annog trigolion Casnewydd nad ydynt yn ailgylchu ar hyn o bryd yn rheolaidd i ailgylchu mwy.

Gwella bywydau pobl. Gostyngiad yn y gwastraff a ddanfonir i safleoedd tirlenwi a'r dreth a delir gan yr awdurdod.

Mae llwyddiant y mesur hwn yn ysgogi cyfraniad Strydlun at Amcanion Gwella Dinas Wyrddach ac Iachach y Cyngor.

7.5 Parhau â'r rhaglenni gorfodi ac addysg i dargedu lefelau cyfranogiad isel a gweithio gyda thîm Deall y Gymuned i dargedu aelwydydd yn fwy effeithiol. **GWYRDD**

Yr hyn a gyflawnwyd eleni

Gweithio gyda CLILC a WAW i ddatblygu dull Cymru gyfan o gyfranogi mewn ailgylchu, gwahanu deunydd ailgylchu a thargedu gyda deunydd hyrwyddo penodol.

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i ddinasyddion? (canlyniadau gwell)

Annog trigolion Casnewydd nad ydynt yn ailgylchu ar hyn o bryd yn rheolaidd i ailgylchu mwy.

Lleihau faint o wastraff a ddanfonir i safleoedd tirlenwi gan yr awdurdod. Llwyddiant y mesur hwn yn ysgogi cyfraniad Strydlun at Amcanion Gwella Dinas Wyrddach ac Iachach y Cyngor. Gwella bywydau pobl

Mesurau Perfformiad Allweddol

Mesur	Gwirioneddol Ch4 13/14	Targed Ch4 13/14	Blwyddyn flaenorol (Ch4) 12/13	Sylwadau
7A Y dangosydd perfformiad o ran gwastraff a ailgylchwyd neu a gompostwyd (WMT/009b)	51.69%	52% (M)	49.18% (G)	Er i'r mesur hwn fethu targed Cymru Gyfan o drwch blewyn, mae perfformiad cyffredinol ailgylchu wedi parhau i wella blwyddyn ar flwyddyn gyda

				chynnydd cynnydd o 2.51% ar ffigurau 2012/13. Cyfanswm gwastraff 70,335 tonnau, y cafodd 36,353 tonnau ei gompostio, ei aildddefnyddio a'i ailgylchu.
7B Nifer yr aelwydydd sydd â chasgliadau deunydd cerdyn ar wahân	30,200	12,500 (G)	Dd/B	Gwnaed ymdrech benodol i gyflwyno'r cynllun casglu deunydd cerdyn wedi'i wahanu yn 2013/14, gyda golwg ar gynnydd lefelau ailgylchu ledled y ddinas. Disgwylir cwblhau'r cynllun erbyn dechrau 2014, 15 a fydd yn sicrhau'r effaith fwyaf posibl dros y flwyddyn ariannol nesaf.
7C Nifer yr aelwydydd sydd â biniau gwastraff gweddilliol 180 litr	40,900	15,000 (G)	Dd/B	Gwnaed ymdrech benodol i gyflwyno'r cynllun biniau 180 litr newydd yn 2013/14 i gynyddu ailgylchu ymhellach ledled y ddinas, gyda 40,900 o gartrefi yn cael bin yn erbyn targed o 15,000.
7D Nifer y cleientiaid gwastraff masnachol	901	900 (G)	Dd/B	Strydlun wedi llwyddo i hyrwyddo'r gwasanaeth gwastraff masnachol llwyddiannus hwn i'n partneriaid busnes ledled y ddinas

Amcan Gwella 8 – Gwella Cyfleoedd Diwylliannol i Gynyddu Cyfranogiad

Aelod Cabinet Arweiniol: Yr Aelod Cabinet dros Hamdden a Diwylliant
Swyddog Arweiniol: Pennaeth Dysgu Parhaus a Hamdden

Asesiad Cyffredinol: Melyn – Da. Cwblhawyd pob cam gweithredu'n llwyddiannus ar ddiwedd y flwyddyn. Methodd dau fesur â bwrw'r targed, ac er i rai elfennau o'r mesur cyfranogi fethu â bwrw targedau, mae cyfranogiad cyffredinol yn uwch na'r disgwyl.

Camau Allweddol

8.1 Datblygu Strategaeth a Chynllun Gweithredu Diwylliannol sydd â'r nod o gynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon, gweithgarwch corfforol, dysgu a gweithgareddau diwylliannol gan arwain at brosesau dysgu a chymwysterau gwell, gyda mwy o bobl yn cymryd rhan ym mywyd diwylliannol y Ddinas. **GWYRDD**

Yr hyn a gyflawnwyd eleni

Cyflwynwyd y Strategaeth Diwylliant ddrafft i'r Cabinet a chymeradwywyd ei gwneud yn destun ymgynghoriad. Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad drwy Newport Matters, gwefannau Cyngor Dinas Casnewydd a datganiadau i'r wasg a oedd yn y South Wales Argus. Cwblhawyd yr ymgynghoriad, a chymeradwywyd fframwaith strategaeth diwylliant derfynol Casnewydd gan y Cabinet, a gan y Cyngor yn Chwefror 2014.

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i ddinasyddion? (canlyniadau gwell)

Mae'r Fframwaith yn nodi pedair thema blaenoriaeth strategol

- Diwylliant a Dysgu
- Iechyd a lles
- Bywydau wedi'u cyfoethogi
- Yr Economi Ddiwylliannol a Chreadigol

Bydd y Cynllun Gwasanaeth Dysgu a Hamdden Parhaus ar gyfer 2014-15 yn canolbwyntio ar gamau gweithredu'n seiliedig ar bedair thema blaenoriaeth y Strategaeth Diwylliant. Caiff y strategaeth ei chyhoeddi ar y wefan. Bydd cylch gorchwyl y Bartneriaeth Diwylliant, gan gynnwys yr aelodaeth, ei gytuno arno a chaiff y cyfarfod cyntaf ei drefnu.

8.2 Mae'r Strategaeth yn alinio'r ddarpariaeth ddiwylliannol a chwaraeon gyfredol ac arfaethedig, gan arwain at fwy o ymweliadau â'r campfeydd ym Mhentref Chwaraeon Rhyngwladol Casnewydd a Chanolfan Casnewydd. **GWYRDD**

Yr hyn a gyflawnwyd eleni

Mae'r campfeydd newydd sbon ym Mhentref Chwaraeon Rhyngwladol Casnewydd ("y Pentref") wedi parhau i weld cynnydd sylweddol yn y defnydd ohono rhwng Ionawr a Mawrth 2014. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn y Pentref, gyda chynnydd o 18,358 o ddefnyddwyr o'r un cyfnod yn 2013 i 35,842 yn 2014, sef gwelliant o 49%. Defnyddiwyd campfa Canolfan Casnewydd 6,033 o weithiau dros yr un cyfnod, o 19,422 yn Ionawr-Mawrth 2013 i 24,455 yn 2014. Cynyddodd incwm o aelodaethau Hamdden Debyd Uniongyrchol dros yr un cyfnod. O Hydref 12 i Ionawr 13 roedd incwm o £210,506, ond ar gyfer yr un cyfnod yn 2013-14 yr incwm oedd £226,223 sef cynnydd o £15,618. Cynyddodd yr incwm o ddebyd uniongyrchol yn ystod 4ydd chwarter 2013-14 i £176,345 o'i gymharu â £162,385 yn ystod yr un cyfnod yn 2012-13, a chynnydd o £13,960. Yn y Flwyddyn Newydd bu ymgyrch 7 am £7 yn llwyddiannus. Talodd cwsmeriaid a ymunodd â'r ymgyrch £7 am 7 ymweliad ag unrhyw gyfleuster hamdden.

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i ddinasyddion? (canlyniadau gwell)

Bu cynnydd sylweddol cyffredinol yn nifer yr ymweliadau i ganolfannau chwaraeon a hamdden yn ystod y flwyddyn. Ar ddiwedd chwarter pedwar bu 1,252,526 o ymweliadau

gweithgarwch corfforol o'i gymharu â 1,119,187 yn 2012-13, sef gwelliant o 10.65%. Mae hyn gyfystyr â 8,573 o ymweliadau i bob 1,000 o'r boblogaeth. Mae'r ystadegau hyn yn nifer yr achosion o gyfranogi mewn canolfannau chwaraeon a hamdden, ac maent yn Ddangosydd Perfformiad Cenedlaethol. Mae'r gwasanaeth wedi gweithio'n galed i annog cyfranogiad hirdymor gyda 219 o gwsmeriaid bellach yn newid i gynnyrch aelodaeth tymor hwy. Casglwyd incwm o £17,304 fel rhan o ymgyrch 7 am £7. Yn ystod yr ymgyrch prynodd 2,472 o bobl gynnyrch 7 am £7, ac o'r rheiny roedd 1,307 yn gwsmeriaid newydd i'r gwasanaeth.

8.3 Datblygu'r Bont Gludo a phrofiadau ymwelwyr **GWYRDD**

Yr hyn a gyflawnwyd eleni

Agorodd y bont ar gyfer Pasg 2013 fel atyniad i ymwelwyr a gweithredodd tan ddiwedd Medi, pan gaeodd dros y gaeaf.

Gosodwyd arwyddion ffyrdd ychwanegol y baratoi at dymor 2014-15.

Crëwyd cynllun dehongli, a chaiff rhagor o waith ei gynnal yn 2014-15.

Mae perfformiad economaidd gwell wedi galluogi gwaith cynnal a chadw angenrheidiol i gael ei gyflawni.

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i ddinasyddion? (canlyniadau gwell)

Rhagorodd perfformiad ar y targed ymwelwyr o 15,000 (15,600) a tharged incwm o £18,000.

Mae incwm wedi cynyddu 300%, ymweliadau gan 9% a'r defnydd o'r ceir 50%. Y bont bellach yw'r atyniad ymwelwyr â thâl uchaf ar Trip Adviser.

8.4 Cynnig rhaglen ddiwylliannol amrywiol yng Nghanolfan Glan yr Afon i ddiwallu anghenion cwsmeriaid yn ogystal â denu perfformiadau a phrofiadau newydd i Gasnewydd. **GWYRDD**

Yr hyn a gyflawnwyd eleni

Bu'r rhaglen yn boblogaidd ymhlith cwsmeriaid a beirniaid, gyda nifer y bobl sy'n ymweld y nifer fwyaf erioed ers agor yn 2004. Yn ogystal â llwyddiant y pantomeim, a fu'r un mwyaf poblogaidd yn hanes y Ganolfan, gwelwyd dros y tri mis diwethaf gynyrchiadau gan gwmnïau o Gasnewydd, Tin Shed Theatre, Daniel Llewelyn Williams a stiwdio ddawns Bellabella. Roedd pob un o'r rhain yn boblogaidd iawn gan adlewyrchu anghenion a diddordebau lleol (yn ogystal â chodi incwm, sy'n annog yr artistiaid hynny i aros yng Nghasnewydd).

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i ddinasyddion? (canlyniadau gwell)

Daeth 90,174 i'r ganolfan yn 2013-14 - y nifer fwyaf erioed ers agor yn 2004 a 15% yn fwy na tharged eleni. Roedd 11% yn uwch na'r ffigur gorau blaenorol. Roedd 69% o'r gweithgarwch yn ddigwyddiadau a drefnwyd ac a reolir gan dîm Datblygu a Digwyddiadau Celfyddydol Canolfan Glan yr Afon. Ehangwyd ystod y gweithdai a'r dosbarthiadau sy'n cael eu cynnig, gan gynnwys gweithgareddau Dysgu yn y Gymunedol, ynghyd â rhaglen Glan yr Afon ei hun. Mae hyn wedi cyfrannu at gynnydd o 19% yn nifer yr ymwelwyr ar gyfer y maes hwn, ac mae'n datblygu Glan yr Afon fel hyb go iawn i weithgareddau celf a diwylliant.

Mesurau Perfformiad Allweddol

Mesur	Gwirioneddol Ch4 13/14	Targed Ch4 13/14	Blwyddyn flaenorol (Ch4) 12/13	Sylwadau
8A Sicrhau mwy o gyfranogi. Gwelliant o ran	227,575	164,222 (G)	195,666 (G)	Perfformiad cyffredinol y
	37,999	38,175 (M)	37,596 (G)	

mesurau perthnasol o ganlyniadau'r boblogaeth	90,174	78,500 (G)	77,689 (G)	gwasanaeth yn dda iawn a pherfformiodd yn dda yn erbyn y targed, er bod llai o adnoddau ar gael. Aiddatblygu Canol y Ddinas yn cael effaith fawr ar berfformiad y Llyfrgell Ganolog a nifer y cysylltiadau â chwsmeriaid gyda phwyntiau gwasanaeth eraill hefyd yn cael eu tynnu'n ôl yn Nhŷ Brynglas a Stow Hill.
	51,198	54,000 (M)	Dd/B	
	15,764	15,000 (G)	Dd/B	
	1,252,526	992,991 (G)	1,119,187 (G)	
	647,572	720,000 (M)	815,525 (C)	
8B NSi – LCS/002 Ymweliadau chwaraeon a hamdden	8,573 i bob 1,000	6,796 i bob 1,000 (G)	7,677 i bob 1,000 (G)	Rhagorodd y gwasanaeth ar dargedau cyfranogiad yn sylweddol oherwydd rhaglen ehangach yn y cyfleusterau, a denu a chadw cwsmeriaid. Buddsoddiad sylweddol mewn cyfleusterau ffitrwydd a rhaglennu digwyddiadau wedi annog cyfranogiad yng nghyfleusterau Casnewydd i lefel uwch nag erioed. 1,252,526 o ymweliadau
8C NSi - LCL/001 Defnyddio llyfrgelloedd cyhoeddus	4,432 i bob 1,000	4,928 i bob 1,000 (M)	5,594 i bob 1,000 (C)	Mae'r gostyngiad yn nifer yr ymweliadau yn erbyn y targed oherwydd y

				gostyngiad sylweddol mewn ymweliadau â'r Llyfrgell Ganolog o ganlyniad i'r gwaith ailddatblygu sy'n mynd rhagddo yng Nghanol y Ddinas. Hefyd, mae cau llyfrgell Tŷ Brynglas a newidiadau i'r ganolfan llyfrgell ac ymwelwyr gyfunol yn Nhŷ Tredegar wedi cyfrannu at y gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr. 647,572 o ymweliadau
8D Incwm o'r Bont Gludo	£18,585	£18,000 (G)	Dd/B	Cyflawnwyd y targed incwm o ganlyniad i strwythur gweithredu a phrisio newydd. Cynnydd o 300% yn nifer yr ymwelwyr a'r incwm a gyflawnwyd.
8E Cyflawniadau oedolion sy'n dysgu	87% Blwyddyn academaidd 2012/13	88% (M) Blwyddyn academaidd 2012/13	85.02% (M) Blwyddyn academaidd 11/12	Er yn is na'r targed, roedd y lefel cyflawni yn blwyddyn academaidd 2012/13 yn gynnydd ar y flwyddyn flaenorol. Sgiliau hanfodol oedd y maes lle na chyflawnwyd y lefel ddisgwyliedig.

Amcan Gwella 9 – Rheoli'r Strydlun

Aelod Cabinet Arweiniol: Yr Aelod Cabinet dros Seilwaith

Swyddog Arweiniol: Pennaeth Strydlun

Asesiad Cyffredinol: Gwyrdd—Rhagorol. Rydym wedi dod i'r casgliad hwn am fod yr holl fesurau a'r camau gweithredu ar amser.

Camau Allweddol

9.1 Datblygu dull gweithredu rhagweithiol o ran cael gwared ar ddeunydd tipio anghyfreithlon, targedu manau lle y gwyddys y ceir problemau mynych ac achub y blaen ar ymholiadau gan gwsmeriaid, gan sicrhau y gwaredir deunyddiau yn amserol gan ddefnyddio'r un lefel o adnoddau yng nghyd-destun cynnydd mewn achosion o dipio anghyfreithlon ar draws y Ddinas. **GWYRDD**

Yr hyn a gyflawnwyd eleni

Mae ein timau RRT a swyddogion addysg a gorfodi yn adnabod safleoedd lle mae nifer o achosion o dipio anghyfreithlon ac yn symud deunydd ar ôl cynnal ymchwiliadau i geisio dod o hyd i droseddwyr a'u herlyn. Ymatebodd Strydlun i 99.53% o'r holl geisiadau gan y gwasanaeth o ran tipio anghyfreithlon yn erbyn targed corfforaethol o 98%. Caiff deunydd, lle y bo'n bosibl, eu didoli a'u hailgylchu. Sicrheir arian drwy Cadwch Gymru'n Daclus i gynhyrchu deunydd marchnata a chynyddu'r adnoddau sydd ar gael drwy drafod â'r gymuned.

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i ddinasyddion? (canlyniadau gwell)

Yn cyfrannu at Amcanion Gwella'r Cyngor, Dinas Ofalgar, Decach, Wyrddach, Iachach a mwy diogel.

Mae amgylchedd glân, diogel, iach a gwyrdd yn hyrwyddo:

- Balchder cymunedol a rhoi gwerth ar yr amgylchedd
- Gwella bywydau pobl
- Lleihau'r pwysau ar adnoddau a chyllidebau gweithredol sydd dan bwysau
- Amgylchedd diogel, glân a deniadol i fyw a gweithio ynddo, ymweld ag ef a gwneud busnes yno

Mae amgylchedd glân yn hanfodol i ganfyddiad y cyhoedd o ddiogelwch, ac mae'n atal mathau gwahanol o ymddygiad gwrthgymdeithasol.

9.2 Hybu trefniadau gwaredu cylchol gan felly lleihau ymholiadau cwsmeriaid ynghylch manau lle y gwyddys y ceir problemau mynych, a chymryd camau gorfodi wrth ymateb i achosion o dipio anghyfreithlon. **GWYRDD**

Yr hyn a gyflawnwyd eleni

Mae'r adroddiadau mewn manau lle ceir llawer o achosion yn lleihau drwy'r fenter hon, sy'n bodloni gofyniad y mesur hwn. Hyrwyddo ymgyrchoedd sy'n annog cymunedau / preswylwyr i roi gwybod am achosion.

Gwelwyd gostyngiad yn nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon eleni.

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i ddinasyddion? (canlyniadau gwell)

Yn cyfrannu at Amcanion Gwella'r Cyngor, Dinas Ofalgar, Decach, Wyrddach, Iachach a mwy diogel.

Mae amgylchedd glân, diogel, iach a gwyrdd yn hyrwyddo:

- Balchder cymunedol a rhoi gwerth ar yr amgylchedd
- Lleihau'r pwysau ar adnoddau a chyllidebau gweithredol sydd dan bwysau
- Amgylchedd diogel, glân a deniadol i fyw a gweithio ynddo, ymweld ag ef a gwneud busnes yno
- Gwella bywydau pobl

Mae amgylchedd glân yn hanfodol i ganfyddiad y cyhoedd o ddiogelwch, ac mae'n atal mathau gwahanol o ymddygiad gwrthgymdeithasol.

9.3 Cynnal digwyddiadau glanhau cymunedol a chydweithio â chynlluniau gwneud iawn â'r gymuned. **GWYRDD**

Yr hyn a gyflawnwyd eleni

Bu'r trafodaethau â chymunedau'r ddinas a phartneriaid strategol yn y digwyddiadau glanhau hyn yn boblogaidd tu hwnt yn 2013/14, gyda 33 o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal yn erbyn targed o 6.

Dylid hefyd nodi bod llwyddiant y digwyddiadau hyn yn bennaf oherwydd y Tîm Gorfodi Gwastraff penodedig sy'n rhoi o'u penwythnosau a'u nosweithiau'n rheolaidd i gynnal y digwyddiadau hyn.

Sicrhau arian drwy Cadwch Gymru'n Daclus i ddatblygu pecyn Hyrwyddwr Sbwriel ac ymgysylltu â'r gymuned.

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i ddinasyddion? (canlyniadau gwell)

Mae amgylchedd glân, diogel, iach a gwyrdd yn hyrwyddo:

- Balchder cymunedol a rhoi gwerth ar yr amgylchedd
- Lleihau'r pwysau ar adnoddau a chyllidebau gweithredol sydd dan bwysau
- Amgylchedd diogel, glân a deniadol i fyw a gweithio ynddo, ymweld ag ef a gwneud busnes yno
- Mae amgylchedd glân yn hanfodol i ganfyddiad y cyhoedd o ddiogelwch, ac mae'n atal mathau gwahanol o ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Gwella bywydau pobl

9.4 Ymatebion amserol i ymholiadau cwsmeriaid a geir drwy Ganolfan Gyswllt y Ddinas Lleihau 'cyswllt y gellir ei osgoi', a'r angen i gwsmeriaid wneud ymholiadau dilynol.

GWYRDD

Yr hyn a gyflawnwyd eleni

Mae Strydlun wedi llwyddo i ragori ar y targed 91% ar gyfer cau ymholiadau yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth gydol y flwyddyn, ac erbyn diwedd y flwyddyn oedd yn 98.6%.

Cafodd Canolfan Gyswllt y Ddinas 34,814 o geisiadau gwasanaeth ar gyfer 2013/14, sef cynnydd cyffredinol o 1.53% yn nifer y cwsmeriaid a gysylltodd â Strydlun o'i gymharu â 34,289 yn 2012/13.

Mae'r cynnydd hwn yn deillio o nifer uwch o gysylltiadau yn Ionawr a Chwefror.

Er cyfeirio, adroddodd Chwarter 3 ostyngiad o 0.15% yn nifer y cwsmeriaid a gysylltodd yn erbyn yr un cyfnod yn 2012/13. Adroddodd Chwarter 3 ostyngiad o 13.35% yn nifer y ceisiadau gan gwsmeriaid i gael adborth o'i gymharu â 2012/13. Ond arweiniodd cynnydd yn Ionawr a Chwefror i gynydd o 7.6% erbyn diwedd y flwyddyn o'i gymharu â 2012/13. Roedd

y cynnydd yn bennaf am i Gyfoeth Cenedlaethol Cymru ragweld llifogydd yn aberoedd Afon Wysg, gwynt mawr, a chyflwyno'r biniau 180 litr a sachau casglu cardfwrdd.

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i ddinasyddion? (canlyniadau gwell)

Mae llwyddiant y mesur hwn yn ysgogi cyfraniad Strydlun at Amcanion Gwella Dinas Ofalgar, Decach, Wyrddach, Iachach a mwy diogel y cyngor. Mynd i'r afael â materion a all effeithio ar safon bywyd bob dydd trigolion Casnewydd, gan wella bywydau pobl. Mae gofal cwsmeriaid effeithlon ac effeithiol yn creu ymdeimlad o bartneriaid â chwsmeriaid gan wella enw da'r Cyngor.

9.5 Cynnal rhwydwaith priffyrdd diogel, drwy drwsio diffygion Categori 1 ar lonydd cerbydau a llwybrau troed yn amserol, a thrwy gynyddu nifer y diffygion Categori 1 a gaiff eu trwsio neu y sicrhau eu bod yn ddiogel o fewn dwy awr o gynnal archwiliad diogelwch. **GWYRDD**

Yr hyn a gyflawnwyd eleni

Yn erbyn targed o 86% o ddiffygion categori 1 a gwblhawyd ar amser, mae'r data perfformiad yn dangos fod 92.6% o ddiffygion Cat 1 ar gyfartaledd wedi'u cwblhau o fewn y targed yn 2013/14

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i ddinasyddion? (canlyniadau gwell)

Mae rhwydwaith priffyrdd diogel sydd wedi'i gynnal a'i gadw'n dda yn:

- Amgylchedd diogel, glân a deniadol i fyw a gweithio ynddo, ymweld ag ef a gwneud busnes yno
- Hybu adfywio dinesig, cynhwysiant cymdeithasol a diogelwch cymunedol
- Gwella bywydau pobl
- Cefnogi'r economi yn genedlaethol ac yn lleol
- Hyrwyddo amcan y cyngor i wella bywydau pobl
- Lleihau hawliadau 3ydd parti am fethiannau cynnal a chadw
- Cefnogi gwaith rheoli ased gan leihau costau oes gyfan
- Gwella bywydau pobl

Mesurau Perfformiad Allweddol

Mesur	Gwirioneddol Ch4 13/14	Targed Ch4 13/14	Blwyddyn flaenorol (Ch4) 12/13	Sylwadau
9A Cyfraddau ymateb ar gyfer clirio achosion o dipio anghyfreithlon (STS/006)	98.54%	98% (G)	98.69% (M)	Strydlun yn dal wrthi'n symud tipio anghyfreithlon a adroddir ac erlyn troseddwr. Pwyslais parhaus ar ein gwaith gyda'n partneriaid strategol a chymunedol wrth adrodd troseddau ac ymchwilio iddynt. 1,575 o achosion wedi'u cofnodi, 1,552 wedi'u datrys ymhen 5 diwrnod.
9B Nifer y digwyddiadau	33	6 (G)	Dd/B	Blwyddyn hynod o lwyddiannus lle gwelwyd

glanhau cymunedol a gynhelir				nifer o'n partneriaid cymunedol yn cyfrannu'n frwd at y nod hwn. Mae'r haf rhagorol a Thîm Gorfodi Gwastraff penodedig wedi cyfrannu at berfformiad rhagorol yn erbyn y mesur hwn.
9C Ymatebion amserol i ymholiadau cwsmeriaid a geir drwy Ganolfan Gyswllt y Ddinas	98.6%	90% (G)	95.77% (G)	Cafodd Strydlun 34,814 o ymholiadau drwy Ganolfan Gyswllt y Ddinas yn 2013/14. Deliwyd â 98.6% o ymholiadau o fewn amserlenni corfforaethol. Perfformiad rhagorol yn erbyn y mesur hwn. Er y gwneir pob ymdrech i dorri ar gysylltu diangen â chwsmeriaid a hyrwyddo adrodd ar-lein, cofnodwyd cynnydd bach o 1.53% yn erbyn 2013/14.
9D Nifer y diffygion Categori 1 ar lonydd cerbydau a throedffyrdd a gaiff eu trwsio ar amser (sef diffygion sydd angen sylw brys gan eu bod yn peri risg uniongyrchol neu risg sydd ar fin digwydd)	92.6%	86% (G)	Dd/B	Mae unioni diffygion ar y briffordd yn amserol yn hanfodol i gynnal a chadw diogelwch a chynaliadwyedd y briffordd a sicrhau y gall pobl ei defnyddio. Mae perfformiad y mesur hwn hefyd yn effeithio ar fesurau eraill fel STR/L014 Lleihau nifer y cwynion gan gwsmeriaid, ECLI/012 Hawliadau trydydd parti ac ECL/013 Swyddi adweithiol, cyflawnodd pob un ei darged yn 2013/14

Amcan Gwella 10 - Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd

Aelod Cabinet Arweiniol: Yr Aelod Cabinet dros Addysg a Phobl Ifanc

Swyddog Arweiniol: Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

Asesiad Cyffredinol: Melyn – Da. Pob cam gweithredu ar amser, ond un mesur heb â bwrw'i darged.

Camau Allweddol

10.1 Datblygu'r bartneriaeth a ffefir gyda Barnardo's ymhellach i ddarparu Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd a fydd yn arwain at 'un pwynt mynediad ac un llwybr' estynedig i wasanaethau ataliol, gyda chynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau drwy'r llwybr sengl.

GWYRDD

Yr hyn a gyflawnwyd eleni

Mae'r bartneriaeth ddewis â Barnardos yn dal i dyfu a datblygu. Crëwyd 2 swydd newydd yn FASS ac ymestynnwyd y swydd SERAF am 12 mis ymhellach. Trefnwyd grwpiau adolygu a monitro chwarterol. Adolygwyd ac adolygwyd y llwybr atgyfeirio dros y cyfnod hwn yn helaeth. Ar ôl profi nifer o opsiynau gwahanol, er bod un pwynt mynediad i dimau ataliol a statudol, oddi mewn i'r olaf bydd pob tîm yn gwneud ei atgyfeiriadau ei hun (yn hytrach nag ar gyfer ei gilydd). Mae'r datblygiadau yn CCM i hwyluso atgyfeiriadau i'r timau statudol yn electronig yn cael eu profi'n derfynol, a byddant ar waith erbyn diwedd Chwarter 1 2014/15. Mae atgyfeiriadau i IFSS ar y cyfan wedi cynyddu'n sylweddol gan 58% dros y flwyddyn ddiwethaf, felly mae'r timau'n cynorthwyo â mwy o deuluoedd, a rhagorwyd ar bob mesur a nodir yn Amcan Gwella 10 sydd dan reolaeth IFSS.

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i ddinasyddion? (canlyniadau gwell)

O ran atgyfeiriadau, dylai'r broses ddiwygiedig fod yn haws i weithwyr cymdeithasol, unwaith iddi gael ei sefydlu. Cynllunnir rhagor o ymgynghori i ategu'r newidiadau. Cefnogwyd llawer mwy o blant a theuluoedd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf na'r llynedd – roedd ffactorau a aseswyd is ymhlith y mwyafrif helaeth, gan felly ddynodi i'r rhan fwyaf gael eu cynorthwyo ac nad oedd rhaid atgyfeirio at systemau amddiffyn plant a/neu blant sy'n derbyn gofal.

10.2 Bydd buddsoddi mewn datblygu gwasanaethau ymyrraeth gynnar a gwasanaethau ataliol yn cynyddu gallu a hyder y teulu tra'n lleihau'r ddibyniaeth ar wasanaethau aciwt a lleihau'r pwysau ar y gwasanaethau hynny. Bydd hyn yn lleihau ffactorau risg y teulu fel y dangosir drwy'r model pellter a deithiwyd. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yn parhau ar lefel sefydlog o'i gymharu ag awdurdodau eraill cymaradwy (h.y. sicrhau y cynhelir y nifer gymharol fach) a bod y gyfradd ail-atgyfeirio yn lleihau. **GWYRDD**

Yr hyn a gyflawnwyd eleni

Gwelodd pob tîm yn IFSS fod y teuluoedd y maent yn eu cynorthwyo'n gwneud newidiadau ymddygiad cadarnhaol (pellter a deithiwyd) a bod lles a diogelwch plant yn well. Lle na ellir cyflawni hyn, rhoddir tystiolaeth i ategu atgyfeiriadau i lefel uwch drwy amryw brosesau. Cynyddodd y tîm atal (TAF) nifer y plant a'r teuluoedd y cefnogodd gan 26%. Mae elfennau gwahanol FF bellach yn cydweithio'n effeithiol, ac mae'r tîm Atal bellach wedi'u sefydlu i arwain o ganolfannau cymunedol gwahanol, sy'n ceisio manteisio i'r eithaf ar rwydweithio lleol gan leihau dyblygu. Lluniwyd disgrifiad swydd drafft i'r gweithiwr atal addysg ac mae cynllun project i gynyddu'r gwaith hwn yn cael ei greu ac mae wrthi'n cael ei weithredu – bwriedir cynnal gweithdy â phartneriaid allweddol ym mis Mehefin. Er bod y boblogaeth mewn Gofal wedi tyfu dros y cyfnod hwn, mae archwiliad a gwblhawyd gan y tîm QA yn dangos bod nifer o achosion nas atgyfeiriwyd at IFSS erioed – gweithredwyd amryw brosesau 'cadw porth' gyda'r timau rheng flaen yn mynd i'r afael â hyn.

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i ddinasyddion? (canlyniadau gwell)

Cafodd yr holl Amcanion Gwella eu cyflawni a'u rhagori arnynt. Mae nifer fawr o blant a theuluoedd wedi manteisio ar y gwasanaeth, a gwelwyd newid ymddygiadol cadarnhaol. Byddai llawer o'r plant a'r teuluoedd a atgyfeiriwyd at y tîm Atal yn y gorffennol wedi'u hatgyfeirio at wasanaethau Plant fel 'plant mewn angen' ac felly mae Atal yn lleihau'r angen am wasanaethau statudol, ac mae canran gymharol isel y teuluoedd sy'n dod yn adnabyddus i SSD ar ôl cynnal ymyrraeth, yn dangos bod newid ymddygiadol cadarnhaol yn cael ei gynnal dros amser. Mae'r niferoedd uwch sy'n manteisio ar wasanaethau'r timau statudol yn dangos llwyddiant tebyg.

10.3 Caiff y model Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd ei gyflwyno ledled Gwent, dan arweiniad Gwasanaethau Plant Casnewydd. **GWYRDD**

Yr hyn a gyflawnwyd eleni

Gweithredwyd IFST Gwent yng Ngorffennaf 2013 ac mae bellach yn gwbl weithredol, gyda phob swydd wedi'i llenwi – Casnewydd sy'n cynnal y swyddi gofal cymdeithasol. Llofnodwyd cytundeb yn sicrhau bod unrhyw gostau swyddi pan drosglwyddir y grant i RSG yn cael eu rhannu mewn ffordd gymesur. Cyflwynwyd adroddiad cyntaf Blynyddol Gwent i LIC gan ddisgrifio'r daith, yn amlinellu'r hyn a wnaethom, pa mor dda rydym wedi'i wneud a pha wahaniaeth y mae wedi'i wneud.

Casnewydd o hyd yw'r awdurdod arweiniol yn 2014/15 ac mae hefyd yn ymdrin â materion ariannol ar ran Gwent. Roedd yr ymchwil a gwblhawyd yn amwys o ran y gynulleidfa darged orau – mae rhagor o ddadansoddi wedi'i gynllunio.

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i ddinasyddion? (canlyniadau gwell)

Mae pob awdurdod lleol yn ardal Gwent yn defnyddio'r adnodd IFST mewn ffordd ychydig yn wahanol ac yn unol â'u hanghenion lleol eu hunain. Yng Nghasnewydd, er gwaethaf y ffaith bod llai o gapasiti ar ôl cyflwyno'r adnodd, mae nifer y plant a theuluoedd sy'n cael y cymorth aciwt hwn (gan gynnwys teuluoedd a gefnogir gan FASS) wedi cynyddu dros 62% dros yr un cyfnod (mae FASS wedi tyfu'n sylweddol dros y cyfnod hwn).

Mesurau Perfformiad Allweddol

Mesur	Gwirioneddol Ch4 13/14	Targed Ch4 13/14	Blwyddyn flaenorol (Ch4) 12/13	Sylwadau
10A Y lleihad risg cyfartalog gyda theuluoedd sy'n derbyn cymorth gan y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf	32.34%	31% (G)	Dd/B	Blwyddyn iawn gyntaf gweithredu rhaglen FF wedi dangos tystiolaeth glir fod risg wedi lleihau
10B Canran y plant a'r teuluoedd y gweithiwyd gyda hwy lle ceir lleihad yn y risg	89.8%	75% (G)	Dd/B	
10C Canran yr atgyfeiriadau i'r Tîm Ataliaeth o'r Tîm Dyletswydd	17.2%	10% (G)	Dd/B	Croeso calonogol sy'n adlewyrchu'r ddealltwriaeth sydd rhwng timau o anghenion priodol atgyfeiriadau ac effeithiolrwydd ymyriadau Atal
10D Nifer y plant a gefnogir gan IFSS	1521	1300 (G)	Dd/B	IFSS yn dal i wneud gwahaniaeth cadarnhaol sylweddol i fywydau teuluoedd
10E Ail-atgyfeiriadau o'r Tîm Ataliaeth i'r tîm dyletswydd	4.4%	15% (G)	Dd/B	Mae'r ganran isel iawn hon yn adlewyrchu'r ddealltwriaeth

				sydd rhwng timau o anghenion priodol atgyfeiriadau ac effeithiolrwydd ymyriadau Atal
10F Nifer y plant sy'n derbyn gofal gan Gyngor Dinas Casnewydd yn aros yn sefydlog o gymharu ag awdurdodau cymaradwy	85.9 i bob 10,000 (285 o blant)	84 i bob 10,000 (M)	83.6 i bob 10,000 (278 o blant) (M)	Mae ffigur plant mewn gofal wedi cynyddu rhywfaint. Mae nifer y plant sy'n dod i dderbyn gofal yn destun sylw parhaus. Mae'r ffigur dal yn isel o'i gymharu ag ALLau partner ond mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau sefydlogrwydd.

Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Cydraddoldeb

Cymeradwyodd y Cyngor y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ym mis Mawrth 2012 i gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Dyletswyddau Statudol (Cymru) 2011. Rhaid i awdurdodau cyhoeddus lunio adroddiad blynyddol a'i gyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn sef 31 Mawrth; hon yw'r drydedd flwyddyn y mae'r cyngor wedi llunio'i adroddiad blynyddol sy'n cwmpasu'r cyfan Ebrill 2013 - Mawrth 2014.

Mae'r canfyddiadau cyffredinol yn dynodi cynnydd da yn erbyn pum amcan cydraddoldeb dewisol y cyngor:

- Ar y stryd
- Gwasanaethau hygyrch
- Cydlyniant cymunedol a mynd i'r afael â throsedd casineb
- Trais yn y Cartref (Cam-drin domestig??)
- Diweithdra

Mae'r amcanion o hyd yn flaenoriaeth bwysig ar lefel strategol fel y dangoswyd drwy eu cynnwys yng Nghynllun Integredig Sengl Casnewydd a fydd yn parhau wrth i ni ddiweddarau ein Cynllun Integredig Sengl ar gyfer 2014-2016.

Yn gyffredinol, mae'r cyngor yn ymrwymedig i wella'r data y mae'n ei gadw ar bobl a'u hanghenion yn barhaus, gan wella'r ffordd a ddefnyddiwn ddata i ddiwallu eu hanghenion. Ar hynny, gwneir gwaith parhaus i asesu anghenion y boblogaeth yn y dyfodol. Cesglir y wybodaeth hon oherwydd y ddyletswydd cydraddoldeb, a hefyd am ei fod yn ffordd effeithiol a deallusol o weithio mewn adegau pan fo llai o adnoddau a bod galw ar gynnydd. Mae'n bodloni gofyniad y ddyletswydd cydraddoldeb drwy roi gwybodaeth well i ni am y gweithlu,

ein cwsmeriaid a'n cymunedau, fel y gallwn selio penderfyniadau arnynt. Yn gryno, mae'r gwaith sy'n mynd rhagddo sy'n adlewyrchu ein hamcanion cydraddoldeb ar amser ac mae'r amcanion a ddewiswyd yn 2011 o hyd yn flaenoriaeth i'r awdurdod. Mae sicrhau canlyniadau teg wrth wraidd gwaith y cyngor ac mae'n un o'r prif ffactorau wrth wneud penderfyniadau.

Mae adroddiad blynyddol ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2013/14 yma:

<http://www.newport.gov.uk/stellent/groups/public/documents/report/cont727365.pdf>

Cymraeg

Mae'n ofynnol i'r Cyngor adrodd bob blwyddyn ar ei gynnydd wrth roi ei Gynllun Iaith Gymraeg ar waith, i gydymffurfio â Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Comisiynydd y Gymraeg yw'r rheoleiddiwr o ran materion iaith Gymraeg, dan Fesur y Gymraeg (Cymru) a wnaed yn Chwefror 2011.

Sefydlwyd Cynllun Gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg 2011 gyda chymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'r Cynllun yn adeiladu ar y camau cychwynnol a nodwyd yng Nghynllun Iaith Gymraeg y cyngor (er nad yw'n disodli'r Cynllun) ac yn ceisio hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn y Ddinas. Mae'n ymrwmo Cyngor Dinas Casnewydd i newid cynyddol, gan adlewyrchu amcanion allweddol y Cynllun Iaith Gymraeg – hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a hunaniaeth ddwyieithog Casnewydd.

Dangosodd cyfrifiad 2011 dwf yn nifer y plant a phobl ifanc yng Nghasnewydd a all siarad Cymraeg, gyda 7.8% o bobl ifanc 20-24 oed a 4.9% o bobl 25-29 oed yn gallu siarad Cymraeg. Erbyn 2017, mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi ymrwmo i:

- Lunio strategaeth a chynllun gweithredu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant Cymraeg i ysgogi'r galw am addysg Gymraeg yng Nghasnewydd.
- Cynnal arolygon o'r galw am addysg Gymraeg ymhlith rhieni drwy arolwg post a anfonir at rieni plant dan 2 oed, ynghyd â chynllun gweithredu a ddatblygwyd ac a gyhoeddwyd i fynd i'r afael â chanfyddiadau pob arolwg.
- Cynyddu nifer y disgyblion a asesir yn Gymraeg iaith gyntaf erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen o 5.2% i 5.6% erbyn 2017.
- Cynyddu nifer y disgyblion a asesir yn Gymraeg iaith gyntaf erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 3 o 2.6% i 3.2%.
- Gweithio gydag Awdurdod Lleol De-ddwyrain Cymru i sicrhau darpariaeth Gymraeg uwchradd ddigonol yn 2016 pan fydd capasiti Ysgol Gyfun Gwynllyw wedi'i gyrraedd.

Mae Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Iaith Gymraeg 2013/14 yma:

<http://www.newport.gov.uk/stellent/groups/public/documents/report/cont727366.pdf>

Cwynion a Chanmoliaeth Corfforaethol

Cwynion

Mae nifer enfawr o gwsmeriaid yn cysylltu â Chyngor y Ddinas bob blwyddyn. Y mae'r Ganolfan Gyswilt ar ei phen ei hun yn delio â bron 300,000 o geisiadau bob blwyddyn. O bryd i'w gilydd efallai na fydd gwasanaethau'n diwallu anghenion ein cwsmeriaid yn llwyr,

neu gallant ragori ar eu disgwyliadau – gan arwain at gŵyn neu ganmoliaeth. I sefydlu sy'n delio â nifer enfawr o gysylltiadau ar amrywiaeth mor eang o wasanaethau mae nifer y cwynion sy'n dod i law yn isel iawn.

Yn 2013/14, cafodd y Cyngor 475 o gwynion Cam 1, a throsglwyddwyd 30 o'r rheiny i Gam 2. Mae hyn yn ostyngiad o 9% oddi ar nifer y cwynion a ddaeth i law yn 2013/14 o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2012/13. Hon yw'r flwyddyn gyntaf i nifer y cwynion Cam 1 ostwng ers cofnodi'r proses dau gam yn Ebrill 2011. O'r cwynion Cam 1 a ddaeth i law, cwblhawyd 385 o ymchwiliadau gyda 24.5% o gwynion yn cael eu cadarnhau'n rhai dilys.

Er bod y nifer yn gymharol isel, mae delio â chwynion a chanmoliaeth yn flaenoriaeth i'r Cyngor, ac mae ganddo broses dau gam i sicrhau y gallwn ddysgu o'r adborth hwn, a, lle y bo'n bosibl, gwneud newidiadau i wella ein gwasanaethau.

Mae nifer y cwynion a drosglwyddwyd i Gam 2 wedi cynyddu o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Ond dylid nodi mai ond 6.4% a drosglwyddwyd i Gam 2, sy'n dynodi yn y rhan fwyaf o achosion fod y broses Cam 1 yn effeithiol wrth ymateb i bryderon cwsmeriaid.

Canmoliaeth

Cafwyd llawer mwy o ganmoliaethau yn 2013/2014. Cafwyd 347 o ganmoliaeth drwy'r flwyddyn, sef cynnydd o 38% oddi ar y flwyddyn flaenorol. Am y drydedd flwyddyn yn olynol, mae Strydlun wedi cael y nifer fwyaf o ganmoliaethau, wedi'i ddilyn gan Wasanaethau Cwsmeriaid a Gwybodaeth. Roedd cynnydd yng Ngorffennaf pan gafwyd canmoliaethau ar arddangosiadau blodau gwyllt Strydlun, a gafodd lawer o glod gan y cyhoedd. Mae'r rhan fwyaf o ganmoliaethau o ran C&IS ar gyfer y gwasanaethau a roddir gan swyddogion gwasanaeth cwsmeriaid.

Cydweithredu a Gweithio mewn Partneriaeth

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi ymrwmo i weithio mewn partneriaeth ar nifer o wasanaethau ag amrywiaeth o bartneriaid.

Yn ystod 2013/14 cydweithiodd y cyngor yn helaeth â phartneriaid a rhanddeiliaid eraill mewn nifer o wasanaethau.

Gan amrywio o'r gydfenter eiddo newydd a arweiniodd at sefydlu Newport Norse (sydd bellach yn rheoli holl wasanaethau eiddo'r cyngor), Cynllun Integredig Sengl (CIS) Un Casnewydd, Bwrdd sy'n ategu'r diben strategol a rennir a nodir yn y CIS; swydd prif archwiliwr cydweithredol a rennir â Sir Fynwy; PREVENT i fynd i'r afael ag eithafiaeth; y Grŵp Cydlyniant Cymunedol; gwasanaeth mabwysiadu de-ddwyrain Cymru; bwrdd diogelu plant De-ddwyrain Cymru; y Fforwm Diogelu Oedolion; gwaith parhaus gyda Phrosiect Gwyrd; y fforwm Cam-drin Domestig; Fforwm Derbyniadau Casnewydd; Grŵp Llywio Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig; Fforwm Addysg Cymru; Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru; y Grŵp Llywio Lles Strategol; y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid; y Rhwydwaith Digartrefedd Cenedlaethol. Nid rhestr gyflawn mo hon.

Mae ystod a lefel y cydweithio mewn partneriaeth a wneir yn sylweddol, ac felly nid oes modd rhestru pob asiantaeth neu randdeiliaid sy'n gweithio gyda'r Cyngor. Mae adolygiadau cynllun gwasanaeth 2013/14 a gyhoeddwyd yn cynnig compendium mwy cynhwysfawr o'r sefydliadau a weithiodd gyda'r Cyngor.

Cliciwch ar y ddolen isod i ddarllen Adolygiadau Cynllun Gwasanaeth 2013/14

<http://www.newport.gov.uk/en/Council-Democracy/About-the-council/Service-plans.aspx>

Dadansoddi Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSC) Cymru a Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MAC)

Mae'r tabl isod yn dangos perfformiad y Cyngor yn 2013/14 o ran DSCau a MACau:

- Perfformiodd 64% o DSCau a MACau yn well na'r llynedd.
- Rhagorodd 68% o DSCau a MACau ar eu targed
- Rhagorodd 43% o DSCau a MACau ar gyfartaledd Cymru

Mesurau	Gwirioneddol 13/14	Blaenorol 12/13	Targed 13/14	Cyfartaledd Cymru 13/14	Chwartel	Gradd
EDU/002i: Canran yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rheiny sy'n derbyn gofal gan yr ALI) mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan yr ALI sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac yn gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol cymeradwy	0.6	0.2 (C)	0 (C)	0.3 (C)	4	19
EDU/002ii: Canran yr holl ddisgyblion sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol, sy'n 15 oed cyn 31 Awst sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol cymeradwy	5.3	0.0 (C)	0 (C)	2.0 (C)	4	18
EDU/003: Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, sy'n cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd, yn ôl Asesiad yr Athro	86.1	86.1 (G)	90 (M)	84.6 (G)	2	8
EDU/006ii: Canran y disgyblion a aseswyd, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, sy'n cael Asesiad Athro Cymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3	0.0	0.0 (G)	0 (G)	17.0 (C)	4	19
EDU/011: Sgôr cyfartalog ar gyfer disgyblion 15 oed ar y 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol	506.7	490.1 (G)	506.7 (G)	505.3 (G)	3	13
EDU/015a: Canran y datganiadau anghenion addysgol arbennig	77.3	62.8 (G)	65 (G)	69.6 (G)	3	13

Mesurau	Gwirioneddol 13/14	Blaenorol 12/13	Targed 13/14	Cyfartaledd Cymru 13/14	Chwarterl	Gradd
terfynol a gyflwynir cyn pen 26 wythnos, gan gynnwys eithriadau						
EDU/015b: Canran y datganiadau anghenion addysgol arbennig terfynol a gyflwynir cyn pen 26 wythnos, heb gynnwys eithriadau	97.8	81.0 (G)	85 (G)	96.6 (G)	4	18
EDU/017: Canran y disgyblion 15 oed ar y 31 Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd y trothwy Lefel 2, gan gynnwys TGAU gradd A* - C Cymraeg Iaith Gyntaf neu Saesneg a Mathemateg	51.3	49.2 (G)	51.4 (M)	52.5 (M)	3	15
EDU/004: Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, sy'n cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd, yn ôl Aseiad yr Athro	78.0	73.8 (G)	76 (G)	77.2 (G)	2	11
EDU/016a: Canran presenoldeb disgyblion mewn Ysgolion Cynradd	93.0	93.4 (M)	93.5 (M)	93.7 (M)	4	21
EDU/016b: Canran presenoldeb disgyblion mewn Ysgolion Uwchradd	92.1	91.9 (G)	92 (G)	92.6 (M)	4	18
SCA/001: Cyfradd y trosglwyddiadau gofal a ohiriwyd am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu hŷn	11.51	11.84 (G)	15.4 (G)	4.70 (C)	4	21
SCA/002a: Cyfradd y bobl hŷn (65 oed neu hŷn) a gefnogir yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth	63.32	68.96 (M)	66 (M)	74.48 (M)	3	13
SCA/002b: Cyfradd y bobl hŷn (65 oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth	16.20	18.50 (G)	19.4 (G)	19.84 (G)	1	4
SCA/019: Canran yr atgyfeiriadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd lle mae'r risg wedi'i rheoli	97.08	90.61 (G)	85 (G)	94.45 (G)	3	12
SCA/020: Canran y cleientiaid sy'n oedolion sy'n cael cymorth yn y gymuned yn ystod y flwyddyn	85.68	85.61 (G)	85 (G)	86.33 (M)	3	13
SCA/007: Canran y cleientiaid gyda chynllun gofal ar 31 Mawrth a'r cynlluniau gofal hynny wedi'u hadolygu yn ystod y flwyddyn os oedd angen	65.0	64.0 (G)	68 (M)	81.1 (C)	4	20

Mesurau	Gwirioneddol 13/14	Blaenorol 12/13	Targed 13/14	Cyfartaledd Cymru 13/14	Chwartel	Gradd
SCA/018a: Canran gofalwyr oedolion y cynigiwyd asesiad neu adolygiad o'u hanghenion iddynt yn ystod y flwyddyn	87.9	67.3 (G)	75 (G)	85.8 (G)	3	16
SCC/002: Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi symud ysgol fwy nag unwaith, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, nad oeddent o ganlyniad i drefniadau pontio, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth	10.4	15.5 (G)	12 (G)	13.8 (G)	1	5
SCC/004: Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael eu rhoi mewn 3 neu ragor o leoliadau yn ystod y flwyddyn	10.9	6.8 (C)	8 (C)	8.3 (C)	4	17
SCC/011b: Canran yr asesiadau cychwynnol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn lle mae tystiolaeth yn dangos bod y plentyn wedi cael ei weld ar ei ben ei hun gan y Gweithiwr Cymdeithasol	48.5	26.3 (G)	30 (G)	42.9 (G)	2	11
SCC/033d: Canran y bobl ifanc 19 oed a oedd gynt yn derbyn gofal y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy.	93.1	100.0 (M)	90 (G)	93.4 (M)	3	14
SCC/033e: Canran y bobl ifanc 19 oed a oedd gynt yn derbyn gofal y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, sydd mewn llety di-argyfwng addas.	100.0	88.9 (G)	90 (G)	92.7 (G)	1	1
SCC/033f: Canran y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, ac y gwyddys eu bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn 19 oed	51.9	66.7 (C)	60 (M)	54.8 (M)	3	13
SCC/037: Sgôr cymwysterau allanol cyfartalog ar gyfer plant 16 oed sy'n derbyn gofal mewn lleoliad dysgu a gynhelir gan yr awdurdod lleol	244	190 (G)	195 (G)	262 (M)	3	14
SCC:041a: Canran y plant cymwys, y plant perthnasol a'r plant a fu'n berthnasol gynt sydd â chynlluniau llwybrau gofal fel y bo'n ofynnol	87.0	97.2 (M)	97 (M)	89.2 (M)	4	17
SCC/001a: Canran lleoliadau cyntaf plant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a ddechreuodd gyda chynllun gofal	98.3	99.0 (M)	98 (G)	90.9 (G)	3	13

Mesurau	Gwirioneddol 13/14	Blaenorol 12/13	Targed 13/14	Cyfartaledd Cymru 13/14	Chwarterel	Gradd
SCC/011a: Canran yr asesiadau cychwynnol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn â thystiolaeth sy'n dangos bod y plentyn wedi cael ei weld gan y Gweithiwr Cymdeithasol	80.1	66.9 (G)	70 (G)	78.9 (G)	3	14
SCC/045: canran yr adolygiadau o blant sy'n derbyn gofal, plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a phlant mewn angen a gynhaliwyd yn unol â'r amserlen statudol	96.8	97.1 (M)	85 (G)	89.6 (G)	1	2
SCC/025: Canran yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal i'w cynnal yn ystod y flwyddyn a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau	82.2	87.5 (M)	85 (M)	85.3 (M)	4	18
SCC/030a: Canran y gofawyr ifanc y mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwybod amdanynt sydd wedi cael eu hasesu	77.4	90.9 (M)	70 (G)	85.9 (M)	3	16
HHA/013: Canran yr holl aelwydydd oedd yn wynebu digartrefedd lle cafodd hynny ei atal am o leiaf 6 mis	57.4	61.6 (M)	50 (G)	66.4 (M)	4	17
PSR/002: Nifer gyfartalog y diwrnodau calendr a gymerwyd i gyflwyno Grant Cyfleusterau i'r Anabl	319	539 (G)	280 (M)	239 (C)	4	21
PSR/004: Canran yr anheddau sector preifat oedd yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill ac a lenwyd yn ystod y flwyddyn trwy gamau uniongyrchol gan yr awdurdod lleol	4.33	4.23 (G)	3.36 (G)	9.23 (C)	3	16
PLA/006(b): Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran o'r holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn	39	68 (C)	20 (G)	37 (G)	2	9
WMT/004(b): Canran y gwastraff dinesig a gesglir gan awdurdodau lleol a anfonir i safleoedd tirlenwi	45.08	49.69 (G)	48 (G)	37.72 (C)	4	19
WMT/009(b): Canran gwastraff dinesig a gesglir gan awdurdodau lleol a gaiff ei baratoi i'w aildddefnyddio a/neu ei ailgylchu, gan gynnwys gwastraffau wedi'u didoli a gaiff eu compostio neu eu trin yn fiolegol mewn ffordd arall	51.70	49.18 (G)	52 (M)	54.33 (M)	4	19
STS/006: Canran y digwyddiadau tipio anghyfreithlon a gliriwyd o fewn 5 diwrnod gwaith	98.54	98.69 (M)	98 (G)	95.03 (G)	1	6

Mesurau	Gwirioneddol 13/14	Blaenorol 12/13	Targed 13/14	Cyfartaledd Cymru 13/14	Chwartel	Gradd
STS/005b: Canran y priffyrdd a arolygwyd i safon glendid uchel neu dderbyniol	98.0	96.4 (G)	95 (G)	96.8 (G)	2	10
THS/007: Canran yr oedolion 60+ oed a chanddynt bas bws consesiynol	88.5	86.2 (G)	87 (G)	84.3 (G)	2	8
THS/012: Canran prif ffyrdd (A) a ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (B) a ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan	8.6	8.8 (G)	8.8 (G)	13.2 (G)	2	9
PPN/009: Canran y sefydliadau bwyd oedd yn 'cydymffurfio'n gyffredinol' â'r safonau hylendid bwyd	85.01	82.28 (G)	78 (G)	90.33 (M)	4	22
LCL/001(b): Nifer yr ymwelwyr â Llyfrgelloedd Cyhoeddus yn ystod y flwyddyn, fesul 1,000 o'r boblogaeth	4,432	5,594 (C)	4,928 (M)	5,851 (C)	3	15
LCS/002(b): Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth gyda'r ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol	8,573	7,677 (G)	6,796 (G)	8,954 (M)	2	11

Argymhellion a Chynigion Gwella Swyddfa Archwilio Cymru

Mae'r tabl isod yn dangos y cynnydd a wnaed tuag at gynigion yr argymhellion gwella a wnaed i'r awdurdod gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Ystyriwyd hyn gan y Cabinet fel rhan o adroddiad diwedd blwyddyn ym Mehefin 2014. Gallwch ddarllen yr adroddiad llawn yma:

<http://www.newport.gov.uk/stellent/groups/public/documents/report/cont724223.pdf>

C4 Y Diweddaraf am Gynigion Gwella Swyddfa Archwilio Cymru

Llythyr 1 (Ystyriwyd gan y Cabinet ym mis Rhagfyr 2012)

<http://www.newport.gov.uk/stellent/groups/public/documents/report/cont698707.pdf>

Cyf	Cynnig	Diweddariad ar gynnydd at ddiwedd mis Mawrth 2014	Camau gweithredu a gynlluniwyd i'r chwarter nesaf	Dyddiad darfod disgwylidig	Swyddog Cyfrifol
22	Dylai'r Cyngor gynnwys strategaeth rheoli asedau effeithiol ar gyfer ei eiddo a'i seilwaith cysylltiedig. Dylai hyn wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <input type="checkbox"/> pennu gweledigaeth i bob math o ased sy'n dangos sut y bydd yn cyfrannu at amcanion a nodau gwasanaeth y Cyngor; <input type="checkbox"/> pennu targedau ar gyfer y broses asesu, gan gynnwys cyflwr ac addasrwydd pob ased; <input type="checkbox"/> disgrifio cynllun cyffredinol i gyflawni hyn. 	Mabwysiadwyd y Strategaeth Eiddo Corfforaethol a Chynllun Rheoli Asedau Strategol 2013-18 gan y Cyngor ym mis Chwefror 2013 http://stellentcons/stellent/groups/internal/documents/plans_and_strategies/cont709170.pdf	Mae'r strategaeth yn cwmpasu'r 5 mlynedd felly caiff ei chyflawni drwy gyfnod 2013-18	Cwblhawyd Cyflawni'r Strategaeth – parhaus hyd at 2018	Pennaeth Gwasanaethau Adfywio a Rheoliadol
23	Er mwyn galluogi Gwasanaethau Eiddo i gyflawni nodau strategol y Cyngor, mae angen gwneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <input type="checkbox"/> 2a cytuno ar a chyfleu cyfeiriad strategol clir i reoli asedau, gan nodi yr hyn y mae'n bwriadu ei gyflawni yn 	Cyflëir y cyfeiriad strategol i Wasanaethau Eiddo yn y SAMP, a chaiff y broses o'i gyflawni ei reoli drwy'r Grŵp Rheoli Asedau Strategol (SMAG) a gadeirir gan y Cyfarwyddwr Strategol - Lleoedd.	Cyflawni cynllun busnes 2013/14 ac 14/15	Cwblhawyd	Pennaeth Gwasanaethau Adfywio a Rheoliadol

Cyf	Cynnig	Diweddariad ar gynnydd at ddiwedd mis Mawrth 2014	Camau gweithredu a gynlluniwyd i'r chwarter nesaf	Dyddiad darfod disgwylidig	Swyddog Cyfrifol
	<p>y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor;</p> <ul style="list-style-type: none"> <input type="checkbox"/> 2b sicrhau bod y cynllun busnes yn cwmpasu'r holl weithgareddau yn y gwasanaeth newydd; <input type="checkbox"/> 2c sicrhau bod y cynllun gweithredu yn CAMPUS1 a'i fod yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau; <input type="checkbox"/> 2d sicrhau bod cynlluniau adrannol a thargedau staff unigol yn cysylltu â'r cynllun busnes ac amcanion corfforaethol i ategu'r gwaith o'u cyflawni 	<p>Mae Cynllun Busnes 2013/14 y Gwasanaeth Eiddo yn cwmpasu ystod gweithgareddau'r gwasanaeth, gan gynnwys camau CAMPUS, a bydd yn cysylltu ag adolygiadau blynyddol staff.</p>			
24	<p>Cyflawni rhaglen systematig barhaus o asesiadau cyflwr ac addasrwydd, i sicrhau bod gwybodaeth gynhwysfawr am holl adeiladau'r Cyngor yn cael ei chadw ar un gronfa ddata.</p>	<p>Ailaseswyd yr holl adeiladau a thir gyda'r data a archwiliwyd wedi'i roi yn y System Rheoli Gwybodaeth Eiddo newydd. Dechreuwyd ar y broses o gasglu data ar brydlesau.</p> <p>Mae'r data yn cael ei adolygu fel rhan o'r gwaith o weithredu'r Gydfenter Eiddo</p> <p>Sefydlwyd rhaglen barhaus o arolygon cyflwr – gan flaenoriaethu adeiladau sy'n destun adolygiad gan SAMG.</p> <p>Sefydlwyd rhaglen brisio a chytunwyd arni gyda'r Adran Gyllid – mae hyn yn cynnwys cysoni prisiannau blynyddol ar y Gofrestr Asedau Sefydlog</p>	<p>Bydd y gwaith o osod gwybodaeth am brydlesau yn y System Rheoli Gwybodaeth Eiddo yn parhau. I'w gwblhau erbyn y dyddiad trosglwyddo</p>	<p>Gosod data allweddol ar y System Rheoli Gwybodaeth Eiddo – i'w gwblhau erbyn y dyddiad trosglwyddo</p>	<p>Pennaeth Gwasanaethau Adfywio a Rheoliadol</p>

Cyf	Cynnig	Diweddariad ar gynnydd at ddiwedd mis Mawrth 2014	Camau gweithredu a gynlluniwyd i'r chwarter nesaf	Dyddiad darfod disgwylidig	Swyddog Cyfrifol
		Cwblhawyd prisiadau asedau 2013/14 Gwaith i gyflawni arolygon cyflwr ar amser			
25	Ffurio strategaeth cyfalaf hirdymor, yn gysylltiedig â chyflawni nodau'r strategaeth rheoli asedau. Dylai hyn gynnwys dull corfforaethol ffurfiol o ymdrin â gwerthuso opsiynau ar gyfer projectau cyfalaf arfaethedig.	Mae strategaeth cyfalaf hirdymor yn gam gweithredu ar gyfer Cynllun Busnes 13/14 – fodd bynnag, llywodraethir gwerthusiad opsiynau llawn o gynigion ar reoli asedau drwy'r Grŵp Rheoli Asedau Strategol.	Llunio strategaeth cyfalaf hirdymor fel rhan o'r gydfenter	Gorffennaf 2014	Pennaeth Gwasanaethau Adfywio a Rheoliadol
26	Adolygu'r ystod gyfredol o ddata perfformiad a sicrhau bod yr ystod gynhwysfawr o'r mesurau priodol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar waith i reoli'r broses o wella gwasanaethau.	Adolygwyd targedau gwella perfformiad, a chyflwynwyd rhai newydd yn 2012/13 a pharhawyd â hyn yn 13/14. Ceir cyfres lawn o ddangosyddion perfformiad yng Nghynllun Busnes Gwasanaethau eiddo 2013/14 – gyda DPau allweddol wedi'u cynnwys yng Nghynllun Gwasanaeth y Gwasanaethau Adfywio a Rheoliadol ar gyfer 2013/14	Casglu ac adolygu data ar berfformiad ar gyfer 13/14 yng Ngorffennaf 2014	I'w gwblhau erbyn y dyddiad trosglwyddo	Pennaeth Gwasanaethau Adfywio a Rheoliadol
27	Mynd i'r afael â gwendidau yn ystod a chwmpas y gwaith adrodd ar y cynllun busnes drwy gynnwys sylfeini perfformiad cynhwysfawr, data ar dueddiadau, data ar safleoedd, perfformiad cyllidebol, gwybodaeth am risg a meincnodi.	TheMae Cynllun Busnes 2013/14 y Gwasanaeth Eiddo yn cwmpasu ystod o weithgareddau'r gwasanaethau, yn cynnwys camau CAMPUS, perfformiad cyllidebol a rheoli risg.	Cyflawni Cynllun Busnes y Gwasanaeth Eiddo	Cwblhawyd	Pennaeth Gwasanaethau Adfywio a Rheoliadol
28	Sicrhau bod gwybodaeth am asedau yn gyfoes, yn gyflawn ac yn cael ei chadw ar ffurf sy'n galluogi i adroddiadau priodol ar reoli gael eu cynhyrchu.	Ailaseswyd yr holl adeiladau a thir gyda'r data a archwiliwyd wedi'i roi yn y System Rheoli Gwybodaeth Eiddo newydd. Y broses o gasglu data ar brydlesau ar amser.		Cwblhawyd	Pennaeth Gwasanaethau Adfywio a Rheoliadol

Cyf	Cynnig	Diweddariad ar gynnydd at ddiwedd mis Mawrth 2014	Camau gweithredu a gynlluniwyd i'r chwarter nesaf	Dyddiad darfod disgwylidig	Swyddog Cyfrifol
		<p>Mae'r gwaith o osod gwybodaeth am brydlesau yn y System Rheoli Gwybodaeth Eiddo ar amser a bydd yn parhau ym Mehefin 2014</p>			
29	<p>Sicrhau cysylltiad clir rhwng y Strategaeth a'r Uwch-gynllun Datblygu Economaidd â'r amcanion perthnasol yn y Strategaeth Gymunedol a'r Amcanion Gwella a rhwng ei gilydd, er mwyn helpu'r Cyngor i asesu eu cyfraniad i'w raglen wella a'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau strategol y Cyngor.</p>	<p>Gwaith paratoi i roi fframwaith datblygu economaidd / adfywio diwygiedig ar waith yn y ddinas. Pan gaiff ei weithredu bydd yn cyflawni'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Sicrhau bywiogrwydd a hyfywedd canol y ddinas - Creu swyddi - Llai o siopau gwag ac adeiladau gwag/segur 	<p>Gwaith yn mynd rhagddo ar Strategaeth Adfywio newydd sy'n cynnwys y model adfywio newydd arfaethedig.</p> <p>Bydd hon yn cysylltu ag amcanion y Strategaeth Gymunedol a'r rhaglen Gwella. Caiff cynllun gweithredu ei greu fel rhan o'r Strategaeth Adfywio newydd yn amlinellu amcanion, targedau a cherrig milltir.</p>	Erbyn diwedd 2014/15	Pennaeth Gwasanaethau Adfywio a Rheoliadol
30	<p>Blaenoriaethu camau gweithredu ac, o ran y camau gweithredu hynny, cynnwys mwy o fanylion yn gyson o ran canlyniadau, targedau, terfynau amser, adnoddau, cerrig milltir, ffactorau risg a chamau lliniaru, y gellir eu defnyddio i fonitro cynnydd, mesur llwyddiant a nodi gwelliant.</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Sicrhau twf yn yr economi leol - Cynyddu nifer yr ymwelwyr â chanol y ddinas a chynyddu twristiaeth a'r defnydd o'r ddinas fel lleoliad chwaraeon. 			
31	<p>Atgyfnerthu'r broses o bennu canlyniadau a thargedau ar gyfer cynlluniau a phrojectau adfywio, a sicrhau bod digon o wybodaeth am berfformiad ar gael i gynnal gwaith monitro a gwerthuso.</p>				
32	<p>Cynnwys rhagor o fanylion am amser, cyllidebau ac adnoddau mewn dogfennau adfywio, megis dogfennau cychwyn projectau er mwyn galluogi asesu gwerth a chost effeithiolrwydd.</p>				

Llythyr 2

Ystyriwyd gan y Cabinet ym mis Ionawr 2013

<http://www.newport.gov.uk/stellent/groups/public/documents/report/cont705797.pdf>

Disodlwyd yr holl gynigion gan gynigion ac argymhellion a wnaed yn yr Asesiad Corfforaethol

Cynigion Gwella o'r Asesiad Corfforaethol

Ystyriwyd gan y Cabinet ym mis Hydref 2013

Cyf	Cynnig	Diweddariad ar gynnydd at ddiwedd mis Mawrth 2014	Camau gweithredu a gynlluniwyd i'r chwarter nesaf	Dyddiad darfod disgwylidig	Swyddog Cyfrifol
40	<p>Dylai'r Cyngor:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ddatblygu a gweithredu strategaeth ymgysylltu a chyfathrebu briodol sy'n cyfleu'r genhadaeth newydd a'r fframwaith sefydliadol, gan hefyd gefnogi newidiadau diwylliannol yn y sefydliad; • sicrhau bod lle iddi o ran y bobl a'r adnoddau a all weithredu'r fframwaith sefydliadol <p>a chyflawni'r newidiadau dilynol i'r gwasanaeth; a</p> <ul style="list-style-type: none"> • cynnwys y Comisiwn Tegwch wrth ddatblygu blaenoriaethau gwella yn ogystal â chynigion ar y gyllideb 	<p>Mae'r cyngor yn cydnabod pwysigrwydd a'r angen i roi gwybod i weithwyr am y genhadaeth newydd a'r fframwaith sefydliadol, ac mae hefyd yn cefnogi newidiadau diwylliannol yn y sefydliad. I wneud hyn, mae'r cyngor wedi defnyddio ei ddulliau cyfathrebu mewnol i roi gwybod i'n gweithwyr o'r negeseuon allweddol.</p> <p>Bu hefyd negeseuon penodol gan y Prif Weithredwr drwy'r fewnwyd a briffiau timau i roi gwybod i'r gweithlu am yr heriau a wynebwn, a sut y byddwn yn delio â'r heriau hyn.</p> <p>I godi ymwybyddiaeth o weledigaeth y cyngor a sicrhau cyfraniad ati, lluniwyd posteri a llyfryn mewnol i reolwyr trydedd a phedwaredd haen yn rhoi enghreifftiau o wella bywydau pobl.</p> <p>Rhodddwyd neges graidd Gwella Bywydau Pobl ar arwyddion yn ardaloedd prysuraf swyddfeydd y cyngor.</p>	<p>Bydd y cyngor yn dal i ddefnyddio ei ystod o ddulliau cyfathrebu i gyfleu'r genhadaeth newydd a'r fframwaith sefydliadol a hefyd gefnogi newidiadau diwylliannol yn y sefydliad.</p> <p>Bydd hyn yn cynnwys e-fwletinau wythnosol, briff tîm, cylchlythyr staff, hysbysfyrddau gwybodaeth a'r fewnwyd.</p>		<p>Pennaeth Pobl a Thrawsnewid / Pennaeth Cyllid</p>

Cyf	Cynnig	Diweddariad ar gynnydd at ddiwedd mis Mawrth 2014	Camau gweithredu a gynlluniwyd i'r chwarter nesaf	Dyddiad darfod disgwylidig	Swyddog Cyfrifol
		<p>Cynhaliwyd cynadleddau staff ym mis Mawrth a lanswyd y rhyngrwyd newydd ym mis Ebrill.</p> <p>Roedd y comisiwn tegwch yn rhan o'r broses o bennu'r gyllideb a chynllunio gwelliannau</p>			
41	Gweithredu'r cynigion gwella yn llawn fel y'u nodir yn ein hadroddiadau blaenorol ar reoli asedau.	Gweler 22-28 uchod.	Gweler 22-28 uchod.	Gorffennaf 2014	Pennaeth Gwasanaethau Adfywio a Rheoliadol
42	Datblygu dealltwriaeth eglurach o'r projectau cydweithredol sy'n cael eu cynnal ym mhob rhan o'r Cyngor a dull hysbys y cytunwyd arno o reoli cydweithredu. Dylai'r dull hwn helpu'r Cyngor i sicrhau bod cydweithio'n sicrhau canlyniadau gwerth am arian i ddinasyddion Casnewydd.				
43	Gwerthuso strwythurau newydd y BGLI i sicrhau bod y cylch gorchwyl yn glir, fod y grwpiau'n gynhwysol (a'u bod yn cynnwys yn bennaf partneriaid o'r trydydd sector a'r sector preifat) ac nad yw'r rolau'n cael eu dyblygu.	<p>Daeth cyfnod ymgynghori'r gwerthusiad i ben ar 30 Tachwedd 2013. Cafodd yr ymatebion eu casglu a'u dadansoddi i'w cyflwyno i'r BGLI</p> <p>Adroddiad i'w gyflwyno i'r Bwrdd CIS Chwefror 2014</p> <p>Cynhaliwyd Digwyddiad Ymgysylltu â Phartneriaid ym Mawrth 2014.</p> <p>Adolygwyd ac ail-ddyluniwyd y Fframwaith Rheoli Perfformiad i symleiddio prosesau a sicrhau atebolrwydd a her</p>	Argymhellion a wnaed i'r BGLI ym Mai 2014 i'w gweithredu yn ystod 2014-15	Caewyd ym Mai 2014	Pennaeth Pobl a Thrawsnewid
44	Egluro amserlenni ar gyfer diweddarau ac adolygu'r Asesiad Anghenion Cyfunol a'r Cynllun Integredig Sengl a llunio strategaeth cyfathrebu i sicrhau	Cynhaliwyd digwyddiadau ymgynghori a chyfathrebu â swyddogion a'r bartneriaeth ehangach yn ystod Mawrth 2014 fel rhan o gynllun gwybodaeth	Caiff digwyddiadau ymgysylltu chwarterol eu cyflawni'n seiliedig ar themâu o'r CIS i sicrhau y caiff gwybodaeth dal	Mawrth 2014	Pennaeth Pobl a Thrawsnewid

Cyf	Cynnig	Diweddariad ar gynnydd at ddiwedd mis Mawrth 2014	Camau gweithredu a gynlluniwyd i'r chwarter nesaf	Dyddiad darfod disgwyledig	Swyddog Cyfrifol
	ymwybyddiaeth ehangach o'r dogfennau allweddol hyn. Sicrhau bod y broses ar gyfer dewis blaenoriaethau'n cael ei chytuno arni, ei bod yn glir, yn ddidwyll a'i bod yn hysbys i bawb	ehangach a chytuno ar flaenoriaethau Dosbarthu cylchlythyron rheolaidd yng ngweithgareddau Un Casnewydd	ei chyfnwid â'n partneriaid. Cyflawnir sesiynau trydydd sector penodol drwy'r broses GABO UNA sydd bellach yn y fframwaith Cynnwys y Gymuned		
45	Atgyfnerthu fframwaith rheoli perfformiad y BGLI i nodi'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • rolau a chyfrifoldebau eglurach a manylach ar yr hyn a gaiff ei gyflawni gan ba sefydliadau; • pa wybodaeth perfformiad a gaiff ei chasglu, yn lle a phryd y caiff ei monitro, a sut y caiff cynnydd a pherfformiad eu monitro; • dulliau ar gyfer delio â thanberfformiad; • ffocws cryfach ar berfformiad a rheoli adnoddau ym mhob rhan o'r BGLI 	Y dull ar gyfer delio â thanberfformiad yw yn gyntaf cyfeirio at Fwrdd y CIS o fewn ei gyfrifoldeb i reoli'r gwaith o gyflawni'r CIS, ac os bydd hyn yn methu, galw cyfarfod y Grŵp Gweithredol i ddileu unrhyw flociadau yn y system. Cyflwyno adroddiad Chwarter 3 y Cynllun Integredig Sengl i Fwrdd y CIS, Chwefror 2014. Proses Adolygiad Cyfoedion o ran Sgiliau a Gwaith a Chyfluoedd Economaidd wedi'i chyflawni yn Ionawr 2014 Proses Adolygu Cyfoedion o ran Iechyd a Lles wedi'i chyflawni ym Mawrth 2014	Fframwaith Rheoli Perfformiad, wedi'i adolygu a'i ddiwygio, i'w roi ar waith ar draws y Bartneriaeth Adroddiad blynyddol i'w gyflwyno i'w BGLI ym Mai 2014 a Chraffu ym Mehefin 2014	Bydd hyn yn parhau fel rhan o broses gwella parhaus. Ond bydd hyn yn arwain at lunio Adroddiad Blynyddol y BGLI ym Mai 2014.	Pennaeth Pobl a Thrawsnewid
46	Cynnal momentwm mwy y project Gweithio yn y Gymdogaeth a sicrhau fod yr effaith a gynllunnir ar gymunedau a dinasyddion yn cael ei gwireddu.	Cynhaliwyd y cyfarfod Partneriaeth Ardal cyntaf ym Medi 2013 i gytuno ar flaenoriaethau a datblygu syniadau ar gyfer y cynllun gweithredu. Wrthi'n gweithredu ar Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Cyffuriau Penfeddwol Cyfreithlon a Chynnwys Teuluoedd. Pob proffil Ward wedi'i gwblhau Oherwydd newidiadau staffio bydd angen dod o hyd i ragor o adnoddau i ddatblygu'r Bartneriaeth Ardal ymhellach	Adroddiad gwerthuso'r project peilot i'w gyflwyno i Fwrdd y CIS fel y gellir cael rhagor o argymhellion i'r BGLI a CDC	MAI 2014	Pennaeth Pobl a Thrawsnewid

Cynigion gweithio mewn partneriaeth wedi'u cwmpasu gan gynigion 42-26 uchod.

Cynigion ar gyfer Gwella o'r Adolygiad o'r Rhaglen Drawsnewid
Mehafin 2013

<http://www.newport.gov.uk/stellent/groups/public/documents/report/cont718071.pdf>

Cyf	Cynnig	Diweddariad ar gynnydd at ddiwedd mis Mawrth 2014	Camau gweithredu a gynlluniwyd i'r chwarter nesaf	Dyddiad darfod disgwylidig	Swyddog Cyfrifol
47	<p>Dull cydlynol a strategol o newid, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd T1 Datblygu dull mwy strategol, cydlynol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i'w drawsnewid erbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <input type="checkbox"/> sefydlu gweledigaeth strategol a nodau clir o ran yr hyn y mae'r rhaglen am geisio'i gyflawni; <input type="checkbox"/> sicrhau bod y rhaglen yn cynnwys yr holl weithgareddau perthnasol sydd eu hangen i gefnogi'r hyn y mae'n ceisio'i gyflawni; <input type="checkbox"/> datblygu dulliau o ymgysylltu'n effeithiol â defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill i ddeall yn well eu hanghenion a defnyddio'r wybodaeth hon i lywio'r rhaglen; <input type="checkbox"/> sicrhau bod y rhaglen yn cynnig dull effeithiol o helpu'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau a'i welliannau; a <input type="checkbox"/> sicrhau bod gallu a chapasiti priodol ymhlith staff i ddatblygu'r rhaglen. 	<p>Cwblhau'r "Prosbectws ar gyfer Newid" (Y Rhaglen Newid) sy'n nodi pen clir i'r daith a'r ffordd i'r sefydliad ei gyrraedd, fel y cytunwyd gan y Cabinet yn Hydref 2013.</p> <p>Cymeradwyo cyllideb a rhaglen newid y Cyngor.</p> <p>Mae'r Rhaglen Newid yn cynnwys holl weithgareddau'r Cyngor gan gynnwys mentrau trawsbynciol a galluogi</p> <p>Datblygu a gweithredu cynllun cynnwys rhanddeiliaid a negeseuon allweddol i'w cyfleu. Cynllun cynnwys staff yn uniongyrchol wedi'i gwblhau sy'n cynnwys uwch reolwyr, ymgynghori â dinasyddion wyneb yn wyneb, cynnwys aelodau gan ddefnyddio'r holl grwpiau aelodau gan gynnwys cyfathrebu drwy amryw ddulliau gan gynnwys y wefan allanol, y cyfryngau lleol, rhaeadru'r briff tîm ac ati.</p> <p>Defnyddiwyd yr adborth i ddatblygu a gwella'r rhaglen</p> <p>Rhaglen newid wedi'i ddatblygu sy'n alinio ag amcanion strategol a blaenoriaethau gwella'r Cyngor.</p> <p>Datblygu a gweithredu trefniadau</p>	<p>Datblygu a gweithredu ymhellach gynlluniau cynnwys rhanddeiliaid ar lefel projectau unigol ac ar lefel rhaglen, i alinio â phroses pennu cyllideb 14/15.</p> <p>Parhau i gyflwyno cymorth/hyfforddiant (Rheoli Projectau/Rheoli Newid) i ddatblygu sgiliau galluoedd priodol ym mhob rhan o'r sefydliad.</p>	Chwefror 2015	Pennaeth Pobl a Thrawsnewid

Cyf	Cynnig	Diweddariad ar gynnydd at ddiwedd mis Mawrth 2014	Camau gweithredu a gynlluniwyd i'r chwarter nesaf	Dyddiad darfod disgwylidig	Swyddog Cyfrifol
		<p>diwygiedig o ran llywodraethu, monitro cynnydd a gwireddu buddion.</p> <p>Alinio perfformiad a gwella'n agosach drwy gynnwys perfformiad yn swyddogaeth Gwella/Newid y Cyngor.</p> <p>Datblygu a chymeradwyo cynllun adnoddau fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb. Recriwtio rheolwyr rhaglen a phroject i sicrhau gan y rhaglen ddigon o adnoddau i gyflawni ei hamcanion.</p> <p>Dilyn cyrsiau Rheoli Projectau a Rheoli Newid ym mhob rhan o'r cyngor.</p>			
48	<p>Codi ymwybyddiaeth o'r rhaglen T2 Codi proffil ac ymwybyddiaeth o'r rhaglen a'r hyn y mae am ei gyflawni fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <input type="checkbox"/> egluro'r derminoleg a ddefnyddir i ddisgrifio'r rhaglen a'i defnyddio'n gyson ym mhob gohebiaeth fewnol ac allanol; <input type="checkbox"/> cyfleu'n glir nodau a chwmpas y rhaglen i staff, cyngorwyr ac yn allanol o randdeiliaid; <input type="checkbox"/> hyrwyddo'r rhaglen (a'i chyflawniadau) e.e. ar wefan y Cyngor ac mewn cylchlythyron, ynghyd â gwahodd sylwadau ac adborth; <input type="checkbox"/> hyrwyddo perchenogaeth o'r rhaglen drwy werthuso, hyfforddi a datblygu staff; ac <input type="checkbox"/> ystyried cyflwyno hyrwyddwyr newid mewn gwasanaethau i ysgogi syniadau newydd a ffyrdd newydd o weithio. 	<p>Y Rhaglen Newid yw'r enw cyffredin ar y rhaglen. Fe'i defnyddir i gyfathrebu â'r holl randdeiliaid ac mae'n rhan o gynllun cyfathrebu'r broses pennu cyllideb</p> <p>Mae'r rhaglen Newid bellach wedi'i chyfleu i randdeiliaid allanol drwy'r wefan allanol, i Gynghorwyr yn fanwl drwy'r Gweithgor Newid, ac i staff mewn amryw ffyrdd gan gynnwys sioeau teithiol i staff, yr e-fwletin a briffiau timau.</p> <p>Cyflëwyd y rhaglen Newid i ystod eang o randdeiliaid mewnol ac allanol drwy ystod o ddulliau a'r sylwadau a'r adborth a gafwyd.</p> <p>Alinio'r broses adolygu â'r blaenoriaethau newydd. Wedi'i chynnwys yn y broses gwerthuso staff, hyfforddiant a datblygiad sydd ar gael ar hyn o bryd a sefydlu staff</p>	<p>Defnyddio terminoleg gyson wrth ddatblygu cynllun cyfathrebu Rhaglen Newid y Cyngor ymhellach</p> <p>Cyfleu a hyrwyddo'r rhaglen Newid i'r holl randdeiliaid yn unol â'r camau gweithredu a nodir yn y cynllun cyfathrebu newid.</p> <p>Gwaith ymgysylltu yn y dyfodol i'w gynnwys yn y cynllun cyfathrebu cyffredinol sy'n cwmpasu'r holl randdeiliaid.</p>	Rhagfyr 2014	Pennaeth Pobl a Thrawsnewid

Cyf	Cynnig	Diweddariad ar gynnydd at ddiwedd mis Mawrth 2014	Camau gweithredu a gynlluniwyd i'r chwarter nesaf	Dyddiad darfod disgwylidig	Swyddog Cyfrifol
		<p>Nodwyd Penaethiaid Gwasanaethau fel yr hyrwyddwyr newid allweddol ym mhob gwasanaeth ac maent wedi ysgogi datblygiad y Rhaglen Newid ym mhob un o'r gwasanaethau.</p>			
